

Rhif: WG33426



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ynni adnewyddadwy dan perchnogaeth leol

Rhagfyr 2018

Cynnwys

Adran 1: Targedau	
Cwestiwn 1 : Rhowch dystiolaeth o blaid neu yn erbyn ehangu'r targed o 1GW i gynnwys prosiectau trydan a gwres.	5
Cwestiwn 2 : Rhowch dystiolaeth o lefel o berchnogaeth y dylem ystyried ei bod yn rhesymol i gyflawni'r gofyniad.	7
Cwestiwn 3 : Rhowch dystiolaeth o blaid neu dros herio ehangu'r disgwyliad bod cydberchnogaeth yn cynnwys prosiectau trydan a gwres newydd eraill.	10
Adran 2: Diffiniadau	
Cwestiwn 4 : A ydych yn cytuno â'r diffiniad uchod o berchnogaeth leol? Rhowch dystiolaeth o blaid neu dros ddiwygio'r diffiniad o berchnogaeth leol.	12
Cwestiwn 5 : A ydych yn cytuno â'r diffiniad uchod o gydberchnogaeth? Rhowch dystiolaeth o blaid neu dros ddiwygio'r diffiniad o gydberchnogaeth.	15
Cwestiwn 6 : A ydych yn cytuno â'r diffiniad uchod o berchnogaeth gymunedol? Rhowch dystiolaeth o blaid neu dros ddiwygio'r diffiniad o berchnogaeth gymunedol.	18
Adran 3: Tystiolaeth o Fuddion Perchnogaeth	
Cwestiwn 7 : Rhowch dystiolaeth o'r buddion sydd eisoes yn dod i Gymru o brosiectau ynni adnewyddadwy.	21
Cwestiwn 8 : Rhowch dystiolaeth o werth cymharol y gwahanol fuddion a ddisgrifir yn yr adran uchod. Fel rhan o'r asesiad hwn, byddem yn croesawu tystiolaeth o beth ddylai'r blaenoriaethau gweithredu fod i ennill mwy o fuddion i Gymru.	25
Adran 4: Heriau Prosiectau Cydberchnogaeth	
Cwestiwn 9 : Rhowch dystiolaeth o heriau penodol yn ymwneud â phrosiectau cydberchnogaeth. Fel rhan o'r asesiad hwn, byddem yn croesawu tystiolaeth i ddangos a yw cydberchnogaeth ynddo'i hun yn rhwystr i sefydlu prosiectau ynni adnewyddadwy.	28
Cwestiwn 10 : Rhowch dystiolaeth o enghreifftiau lle y cafodd her neu rwystr i gydberchnogaeth ei ddatrys yn llwyddiannus.	34
Adran 5: Modelau Perchnogaeth	
Cwestiwn 11 : Rhowch dystiolaeth o ddatblygiadau a ddefnyddiodd fodolau perchnogaeth eraill nad ydynt wedi'u cynnwys uchod.	38
Cwestiwn 12 : Rhowch dystiolaeth i ddangos y modelau mwyaf defnyddiol ar gyfer darparu buddion lleol a chydberchnogaeth.	40
Adran 6: Cyllid	
Cwestiwn 13 : Rhowch dystiolaeth o'r ffynonellau a'r mathau o gyllid a ddefnyddir i ddatblygu prosiectau ynni yng Nghymru. Byddai'n ddefnyddiol derbyn tystiolaeth o blaid neu yn erbyn bod Llywodraeth Cymru'n parhau i gynnig cyllid.	41
Adran 7: Rôl dulliau buddsoddi a Chwmni Ynni	
Cwestiwn 14 : Rhowch dystiolaeth o effaith modelau cydberchnogaeth ar gael mynediad at gyllid, neu ar gost cyllid.	46
Cwestiwn 15 : Rhowch dystiolaeth o blaid neu yn erbyn rhoi rôl i gwmni ynni dielw i helpu Cymru i gyrraedd targedau perchnogaeth leol.	48

Cwestiwn 16 : Rhowch dystiolaeth o'r angen am ddulliau buddsoddi fel bod mwy o gyfalaf ar gael yng Nghymru i'w fuddsoddi mewn prosiectau ynni.	51
Unrhyw Gwestiynau Eraill	
Cwestiwn 17 : Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw fater cysylltiedig na roesom sylw penodol iddo, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.	53
ATODIAD 1: Cais am Dystiolaeth ar gyfer Perchnogaeth Leol	55

Trosolwg

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gais am dystiolaeth ar gyfer perchnogaeth leol rhwng 12 Ionawr a'r 30 Mawrth 2018.

Pwrpas y cais am dystiolaeth oedd gofyn am dystiolaeth gan randdeiliaid o ba fuddion y mae prosiectau ynni adnewyddadwy'n ei gyfrannu i Gymru ar hyn o bryd ac adnabod sut y gallai prosiectau newydd fod o fudd i Gymru mewn ffordd deg. Roeddem hefyd yn gofyn am dystiolaeth i weld sut y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygu mwy o brosiectau ynni perchnogaeth leol, gan gynnwys modelau cydberchnogaeth, i gefnogi ein targedau Ynni Adnewyddadwy a gyhoeddwyd yn 2017.

Derbyniwyd 30 o ymatebion ysgrifenedig i'r cais am dystiolaeth gan 13 o gyrff trydydd sector, un grŵp cymunedol, saith o ddatblygwyr, pump o unigolion a phedwar o gyrff cyhoeddus. Fe wnaethom hefyd gynnal dau weithdy i ychwanegu cyd-destun i'r cais am dystiolaeth ac i roi cyfle pellach i bobl gael ymateb. Cynhaliwyd y rhain yng ngogledd Cymru ar 12 Chwefror ac yn y De ar 26 Chwefror. Mynychodd gyfanswm o 46 o bobl y ddau weithdy.

Rydym wedi ystyried a dadansoddi'n llawn yr holl wybodaeth a thystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r ymatebion ysgrifenedig a'r digwyddiadau. Rydym hefyd wedi cwrdd ag ymatebwyr a oedd am drafod materion penodol y gwnaethant eu codi yn eu hymatebion. Er ein bod wedi ystyried cyfeiriadau ac astudiaethau achos a gyflwynwyd i ni, nid ydym wedi gallu gwirio cywirdeb rhai cyfraniadau oherwydd diffyg gwybodaeth gyhoeddedig. Er mwyn eglurder, mewn rhai achosion ystyriwyd dystiolaeth a gyflwynwyd wrth ateb un cwestiwn fel rhan o adran arall, lle'r oedd yn fwy perthnasol.

Oherwydd bod peth o'r wybodaeth a ddaeth wrth ymateb i'r cais am dystiolaeth wedi'i darparu'n gyfrinachol ac yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni, ynghyd â'n hymateb i'r dystiolaeth a'r farn a dderbyniwyd, a'r camau y byddwn yn eu cymryd o ganlyniad i'r dystiolaeth. Nid yw'r crynodeb dystiolaeth yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru, rhoddir y farn honno ar wahân yn dilyn y crynodeb.

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r rhanddeiliaid am eu cyfraniadau adeiladol a defnyddiol yn y broses hon.

Adran 1: Targedau

Cliciwch [yma](#) i ddarllen Adran 1 o'r Cais am Dystiolaeth

Cwestiwn 1: Rhowch dystiolaeth o blaid neu yn erbyn ehangu'r targed 1GW i gwmpasu prosiectau trydan a gwres

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai wnaeth ymateb i'r cwestiwn hwn o blaid ehangu'r targed 1GW i gynnwys prosiectau trydan a gwres. Fodd bynnag, teimlwyd y byddai cynnwys gwres yn y targed 1GW yn glastwreiddio'r targed ac y byddai'n llai uchelgeisiol, ac y dylid sefydlu targed gwres ar wahân. Cynigiwn opsiwn arall o gael targed cyfunol ar gyfer gwres a thrydan a gosod targed mwy nag 1GW.

Cyfeiriodd llawer o'r sylwadau at y ffaith bod yr heriau ar gyfer trydan a gwres yn dra gwahanol. Bydd datgarboneiddio gwres yn broses hirach ac anoddach a byddai targed gwres ar wahân yn annog datblygu'r polisïau gwres angenrheidiol.

Cyfeiriwyd at [argymhelliad Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU](#) y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth gwres. Tynnodd un ymatebwr sylw at y ffaith bod chwarter y galw am ynni yn y DU yn alw am wres (gwresogi gofod a dŵr) ac y byddai targed gwres yn helpu i wthio mwy o ddatgarboneiddio gwres.

Cafodd amaeth ei adnabod fel cyfrannwr pwysig at ynni perchnogaeth leol a chyda photensial sylweddol i ddatgarboneiddio gweddill yr economi drwy brosiectau ynni adnewyddadwy ar y tir. Fodd bynnag, byddai angen goresgyn llawer o heriau os oedd y potensial hwn i gael ei wireddu, fel cynllunio, grid, caniatâd a chymhellion.

Cyfeiriodd un ymatebwr at y ffaith mai ychydig iawn o brosiectau ynni cymunedol sy'n darparu gwres. Roedd [adroddiad Cyflwr y Sector](#) 2017 a gomisiynwyd gan Community Energy England yn ategu hyn gan adnabod mai dim ond 12 allan o 269 o weithgareddau ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon oedd yn rhai gwres. Cyfeiriwyd at Narberth Energy fel enghraifft o brosiect gwres yng Nghymru.

Dyma rai o'r ystyriaethau y cyfeiriodd ymatebwyr atynt wrth ystyried targed ar gyfer gwres perchnogaeth leol:

- datblygu a rheoleiddio rhwydweithiau gwres
- cynhyrchu cynaliadwy a chyflenwi biomas
- dyfodol rhwydweithiau nwy
- ggwresogi adeiladau wedi eu hinswleiddio'n wael
- costau uchel o flaen llaw a diffyg gwybodaeth am dechnolegau adnewyddadwy.

Awgrymodd un o'r ymatebwyr y dylai canran benodol yn y targed 1GW cyffredinol fod wedi'i berchnogi'n llwyr gan y gymuned. Awgrymodd ymateb arall fod angen targed Awdurdod Lleol, gydag ynni cymunedol yn cyfrannu canran benodol at y targed hwnnw.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae gwres yn cyfrannu at ran fawr o'r her i ddatgarboneiddio oherwydd mae'n cyfrif am bron i hanner yr ynni a ddefnyddir yn y DU a thraean o allyriadau carbon y DU. Mae gan Gymru lefel isel o gynhyrchu gwres adnewyddadwy: yn 2016 roedd gan y wlad gapasiti gosodedig o 177MW o wres adnewyddadwy.

Mae Polisi Cynllunio Cymru'n adlewyrchu bod angen ystyried datgarboneiddio gwres fel rhan o ddatblygiadau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi nifer o brosiectau gwres cyhoeddus a chymunedol drwy raglen arddangoswyr Byw'n Glyfar a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae diffyg tystiolaeth i osod targed gwres ar wahân ar ei sail. Rhaid hefyd cofio bod ffocws y cymhellion sy'n annog prosiectau cynhyrchu gwres newydd ar y cyfan yn rhai mwy, ac nid ydynt o reidrwydd yn briodol i Gymru. Rydym yn rhagweld lleihad sylweddol mewn cynhyrchu o'r newydd dros y blynyddoedd nesaf wrth i gymhellion ynni adnewyddadwy traws-DU gael eu lleihau neu eu cau, gan ei gwneud yn llawer anoddach cyrraedd y targed 1GW.

Gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Byddwn yn ehangu'r targed i gynnwys gwres, gan gadw'r targed 1GW uchelgeisiol, gyda'r opsiwn i adolygu'r targed os oes mwy o gynnydd na'r disgwyl.

Cwestiwn 2: Rhowch dystiolaeth o lefel y berchnogaeth y dylem ystyried i fod yn rhesymol i gyflawni'r gofyniad.

Roedd consensws ymhlith yr ymatebwyr fod cydberchnogaeth yn beth da ac yn gallu darparu llawer o fuddion lleol. Dangosodd yr ymatebion ddymuniad cryf i gael elfen o berchnogaeth leol ym mhob prosiect ynni adnewyddadwy a leolir yng Nghymru yn y dyfodol. Awgrymwyd y dylid o leiaf rhoi cyfle i bobl leol brynu cyfranddaliadau.

Fodd bynnag, roedd gan bobl wahanol farn am lefel y berchnogaeth sy'n rhesymol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn awgrymu y dylai lefel y berchnogaeth ofynnol fod yn hyblyg a pherthnasol i'r prosiect. Dywedodd un ymatebwr ei bod yn hollol bosib ac y dylid anelu at berchnogaeth leol 100% gyda chynlluniau llai fel paneli PV ar y to neu gynlluniau trydan dŵr bach. Ond gyda phrosiectau mawr iawn, mae'r ffaith bod angen cyfalaf sylweddol yn gwneud lefel uchel o berchnogaeth leol yn fwy heriol.

Cynigiodd ymatebwyr eraill y syniad o fuddsoddi ar raddfa symudol ar sail capasiti (MW), cyfanswm cost y buddsoddiad, lleoliad neu gyfradd elw. Rhoddwyd yr enghraifft y gallai buddsoddiad cymharol fach, o ran canran, mewn prosiect fferm wynt fasnachol fawr ofyn am fuddsoddiad cyfalaf tra sylweddol mewn gwirionedd, ond y gellid darparu prosiect trydan dŵr 100% perchnogaeth leol am fuddsoddiad cyfalaf llawer llai.

Roedd ymatebwyr yn osgoi rhoi'r union lefel o berchnogaeth y byddent yn ystyried i fod yn rhesymol. Awgrymodd un ymatebwr berchnogaeth awdurdod lleol neu drwy gyfranddaliad mwyafrifol. Teimlai ymatebwr arall y gallai gosod lefel neu ganran benodol ar gyfer cydberchnogaeth achosi trafferthion i gymunedau a datblygwyr, a theimlai un arall y dylid gosod trothwy isaf priodol ar gyfer perchnogaeth leol i osgoi 'perchnogaeth ddifudd'.

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion gan ddatblygwyr at y ffaith bod pob prosiect a chymuned yn wahanol ac weithiau na fyddai cydberchnogaeth yn ddigon deniadol i'r gymuned wneud yr ymdrech a mentro. Awgrymwyd yn yr achosion hyn y dylai datblygwyr a chymunedau fod yn gallu dewis llwybrau gwahanol, er enghraifft negodi lefel briodol o daliadau budd i'r gymuned. Gallai fod yn gallach cael disgwyliad yn hytrach na tharged.

Roedd nifer o ddatblygwyr yn credu bod angen cyfleu'r gofyniad ar gyfer perchnogaeth leol fel rhwymedigaeth ar ddatblygwr i wneud pob ymdrech resymol i sicrhau a hyrwyddo perchnogaeth leol ar gyfer datblygiad. Ni ddylai fod yn ofyniad llwyr fel na fyddai prosiect yn gallu symud ymlaen os nad oedd yn bosib gweithredu perchnogaeth leol. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion at y rhesymau lu pam na fyddai perchnogaeth leol efallai'n digwydd yn ymarferol. Roeddent yn credu y byddai'n briodol yn y sefyllfaoedd hyn gofyn bod datblygiad yn dangos sut y byddai'n sicrhau bod buddion lleol yn cael eu darparu.


Cyfeiriodd un ymateb at yr angen taer i ymateb i'r newid hinsawdd gan gredu mai'r egwyddor sylfaenol a'r prif nod ddylai cynyddu faint o ynni adnewyddadwy sy'n cael

ei gynhyrchu. Teimlai'r ymatebwr mai eilbeth oedd buddion posib fel perchnogaeth leol ac na ddylai rwystro creu prosiectau newydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Un o nodau sylfaenol targed perchnogaeth leol yw cynyddu faint o werth a gedwir yng Nghymru o gynhyrchu mwy o ynni. Os yw'r targed yn atal cynhyrchu sy'n cael effaith negyddol yn y pen draw, yna mae'n unol â gwella Lles yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cynhyrchu adnewyddadwy gan ragweld y bydd mwy o alw am wres a thrafnidiaeth ynghyd â llai o gynhyrchu tanwyddau ffosil yn y dyfodol. Nod ein gwaith i geisio arbed ynni yw lleihau'r cynnydd yn y galw, fydd yn lliniaru'r angen am gynhyrchu ynni newydd. Nid yw'n fwriad gan y polisi atal datblygu ond yn hytrach sicrhau bod datblygiadau newydd yn rhoi cyfran deg a chymesur o'r budd i Gymru'n gyfnewid am eu lleoli yma.

I wneud hyn, bydd angen elfen o dryloywder ar ran y datblygwyr sydd am ddatblygu yng Nghymru. Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth o werth datblygiadau ynni adnewyddadwy'n gyffredinol, yr elw a ddaw o fuddsoddi nac ychwaith o werth cymharol unrhyw fuddion i'r gymuned o'i gymharu â bod yn berchen ar y datblygiad cyfan. Fodd bynnag, o'n dealltwriaeth o'r prosiectau a gefnogwyd gennym yn uniongyrchol yn y sectorau cyhoeddus a chymunedol, ystyriwn fod perchnogaeth a chyfranogi yng nghamau cynnar a mwyaf mentrus datblygiad yn creu'r ganran fwyaf o fudd.



Dengys y diagram uchod y berthynas rhwng risg a budd. Gwelwn mai'r ffordd orau o gadw gwerth yng Nghymru yw bod sefydliadau Cymru'n adnabod cyfle ar gyfer datblygiad newydd, ac yn symud ymlaen o dan berchnogaeth a gyda chyllid o Gymru. Byddem yn disgwyl i gynhyrchu ar raddfa leol gael ei ddatblygu a'i berchnogi gan sefydliadau o Gymru. Byddem yn disgwyl i gydberchnogaeth gael ei ystyried ar gyfer datblygiadau mawr iawn. Yn yr achos hwn, byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol a chymunedau ystyried y cyfleoedd yn eu hardal a chaffael partner i ddarparu neu gydberchnogi prosiectau.

Rydym eisoes yn cefnogi ac annog sefydliadau cyhoeddus a chymunedol ar draws Cymru i adnabod a deall y gwerth a'r risg ynghlwm wrth gyfleoedd ynni, a phenderfynu'n neilltuol pa rôl y byddent am eu chwarae yn eu datblygiad a'u gweithrediad. Byddwn yn ystyried sut i ehangu ac uwch-feintio'r gwaith hwn i gynyddu cyfranogiad Cymru mewn datblygu ynni.

Gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi datganiad polisi'n egluro'r pwrpas y bwriedir i'r disgwyliad ar gyfer perchnogaeth leol ei gyflawni. Bydd y datganiad hwn yn disgrifio'r gwahanol atebion a modelau, i gydnabod yr amrywiaeth o ddulliau, capasiti ac anghenion posib sydd gan wahanol gymunedau a lleoedd. Cefnogir y datganiad gan ganllawiau ar sut i gyflawni'r disgwyliad.

Bydd y Datganiad Polisi a'r canllawiau'n egluro gwahanol fathau o berchnogaeth, wedi eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth o ran y gwerth lleol y bydd pob un yn debygol o'i ddarparu ac yn cydnabod lefel y risg a'r ymgysylltu fydd ei angen gan bartneriaid lleol.

Byddwn yn sefydlu gweithgor i ddatblygu'r canllawiau a mewnbwn i'r datganiad polisi.

Cwestiwn 3: Rhowch dystiolaeth o blaid neu dros herio ehangu'r disgwyliad bod cydberchnogaeth yn cynnwys prosiectau trydan a gwres newydd eraill.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o blaid ehangu'r disgwyliad bod cydberchnogaeth yn cynnwys prosiectau trydan a gwres newydd eraill. Ni chynigiwyd unrhyw reswm dros eithrio prosiectau gwres a thrydan newydd gyda nifer ohonynt yn nodi pa mor bwysig oedd cynnwys prosiectau gwres. Cynigiodd un ymatebwr y rhesymeg fod dosbarthu gwres yn digwydd ar raddfa lawer mwy lleol ac felly bod mwy o gymhelliad i bobl leol ymgysylltu mewn prosiectau gwres.

Er o blaid cynnwys prosiectau gwres, dywedodd yr ymatebwyr fod angen gosod targedau ar wahân ar gyfer gwres a thrydan. Yn yr un modd, teimlai nifer o'r ymatebion y dylai fod yn rhesymol disgwyl i fathau eraill di-adnewyddadwy o gynhyrchu ynni gwres a thrydan fod â'r un lefel o gydberchnogaeth â phrosiectau ynni adnewyddadwy.

Awgrymodd ddau ymatebwr y dylai Llywodraeth Cymru bwysio am gyfleoedd cydberchnogaeth ar gyfer prosiectau ynni gwynt ar y môr.

Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at wynt ar y môr fel enghraifft o ddiwydiant lle mae cyfle i wneud gwelliannau sylweddol mewn cydberchnogaeth a pherchnogaeth leol. Cyfeiriwyd at [adroddiad](#) yn tynnu sylw at ddiffyg perchnogaeth leol a chenedlaethol llawer o ffermydd gwynt ar y môr y DU.

Credai ymatebwyr y dylid hefyd ystyried storio ynni ar gyfer cydberchnogaeth, gyda storio pwmp, storio batri a storio hydrogen yn cael eu hystyried fel datblygiadau a allai gynnig cyfleoedd cydberchnogaeth. Awgrymodd un ymatebwr y gallai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai'n fanteisiol ehangu'r cylch gwaith i gynnwys rhwydweithiau trydan a nwy.

Cyfeiriodd un ymatebwr at y nifer fach o gwmnïau preifat mawr a oedd yn dominyddu'r gyfundrefn ynni a datblygiadau ynni adnewyddadwy yn y DU, yn wahanol i'r sefyllfa mewn gwledydd eraill. Cyfeiriwyd at berchnogaeth yn fyd-eang:

- Yn yr Almaen mae tua hanner yr ynni adnewyddadwy wedi'i berchnogi gan ddinasyddion neu awdurdodau dinesig [Dolen i'r cyfeiriad](#).
- Yn Nenmarc mae tua thri chwarter y tyrbinau gwynt o dan ryw fath o berchnogaeth gymunedol. [Dolen i'r cyfeiriad](#).
- Yn yr Unol Daleithiau, cynhyrchir tua chwarter yr holl drydan gan gymdeithasau cydweithredol neu gyfleustodau cyhoeddus. [Dolen i'r cyfeiriad](#).

Roedd un ymatebwr yn erbyn targedau perchnogaeth leol gan awgrymu y medrant rannu cymdeithas a chynyddu anghydraddoldeb cymdeithasol. O ran trydan, roedd yr ymatebwr o'r farn y byddai tloidi tanwydd yn cynyddu a system drydan dwy haen yn datblygu, gyda'r tlawd yn talu mwy am gyflenwad llai dibynadwy a'r mwy cefnog yn gallu prynu eu trydan stôr eu hunain. Yn yr un modd, awgrymodd ymatebwr arall fod prosiectau ynni perchnogaeth leol yn tueddu i gael eu sefydlu mewn cymunedau mwy cefnog sy'n aml mewn sefyllfa well i gael gafael ar gyllid ac i fanteisio ar gyfleoedd; mae angen cymorth ymarferol ar gymunedau tlotach i ddatblygu'r cynlluniau hyn.

Cyfeiriodd un ymatebwr at yr heriau o ehangu'r disgwyliad ar gydberchnogaeth:

- Mae gan wahanol sefydliadau wahanol fuddiannau yn y cynllun.
- Byddai angen creu model busnes sy'n gweithio i ddau berchennog, neu holl berchnogion y cynllun.
- Mae tryloywder drwy'r broses gyfan, o'r cam adeiladu i'r cam bilio'r cwsmer, yn bwysig i sefydlu ymddiriedaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae cefnogaeth i ehangu'r disgwyliad bod pob math o gynhyrchu a storio ynni newydd yn cynnwys elfen o berchnogaeth leol. Credwn y byddai cyfyngu'r disgwyliad i ynni adnewyddadwy'n unig yn cael ei weld fel gwahaniaethu. Drwy ehangu'r disgwyliad, nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu ymhellach faint o fuddion posib a fyddai'n cael eu cadw a'r canlyniadau lles a fyddai'n deillio o hynny.

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Ynni Lleol fel yr oedd yn flaenorol, wedi targedu cymunedau llai cefnog i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt, drwy dargedu rhagweithiol, er enghraifft drwy fenter Tasglu'r Cymoedd.

Gwnaed sawl sylw am y gwahanol batrymau o berchnogaeth mewn gwledydd eraill. Er na ymchwiliwyd yn llawn iddynt eto, mae trafodaethau Llywodraeth Cymru gydag un corff rhanbarthol yn yr Almaen sy'n cefnogi ynni cymunedol wedi dangos bod y rhan fwyaf o'r hyn y cyfeirir ato fel ynni cymunedol wedi'i berchnogi gan amlaf gan gwmnïau ynni cymunedol. Yn wahanol i'r DU, ni chafodd y cwmnïau ynni awdurdod lleol hyn eu preifateiddio yn yr Almaen. Mae'r her o adfer cwmnïau ynni a berchnogir yn lleol, yn y farchnad hynod gystadleuol sydd ohoni, eisoes wedi'i thrafod yng ngwaith blaenorol Llywodraeth Cymru ["Cwmni Ynni i Gymru"](#).

Gweithredu gan Lywodraeth Cymru


Bydd Llywodraeth Cymru'n cadarnhau'r disgwyliad o berchnogaeth leol yn y datganiad polisi ar berchnogaeth. Wrth ymateb i'r dystiolaeth a'r farn a dderbyniwyd, byddwn yn ehangu'r disgwyliad i gynnwys pob math o gynhyrchu, er mwyn sicrhau cae chwarae gwastad. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd hyn yn heriol, yn enwedig ar gyfer datblygiadau mawr, er enghraifft Wylfa Newydd. Fodd bynnag, mae'r egwyddor o ddatblygiadau mawr o'r fath yn dod â budd i Gymru wedi'i sefydlu ers tro, gydag ymdrech sylweddol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau y daw buddion pwrpasol a hirdymor i Gymru o Wylfa Newydd. Fel y nodwyd eisoes, bydd y canllawiau'n nodi ystod o atebion a modelau, gan gydnabod yr amrywiaeth o ddulliau posibl a allai sicrhau budd i Gymru.

Bydd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru'n sicrhau y bydd cymunedau llai cefnog yn derbyn y cymorth a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i gyfrannu at gyfundrefn ynni fwy lleol ei pherchnogaeth.

Adran 2: Diffiniadau

Cliciwch [yma](#) i ddarllen Adran 2 o'r Cais am Dystiolaeth.

Mae'r diagram isod yn dangos rhai o'r perthnasoedd posib rhwng y diffiniadau a roddir yn yr adran hon.



Perchnogaeth leol

Cwestiwn 4. A ydych yn cytuno â'r diffiniad uchod o berchnogaeth leol? Rhowch dystiolaeth o blaid neu dros ddiwygio'r diffiniad o berchnogaeth leol.

Tabl 1 Barn ymatebwyr am Gwestiwn 4

	Nifer yr ymatebwyr	% o'r rhai a fynegodd farn
Cytuno'n gryf	1	4.76%
Cytuno	10	47.62%
Na'n cytuno nac yn anghytuno	4	19.05%
Anghytuno	5	23.81%
Anghytuno'n gryf	1	4.76%
Cyfanswm	21	

Roedd 52.38% o'r rhai wnaeth ymateb i'r cwestiwn hwn yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r diffiniad arfaethedig. Roedd y rhai a gytunai â'r diffiniad yn gwerthfawrogi hyd a lled a hyblygrwydd y diffiniad fel y gallai ystod amrywiol o brosiectau perchnogaeth leol ddatblygu. Roedd un ymatebwr yn croesawu'r diffiniad eang a fyddai'n ehangu mynediad at y buddion i bob dosbarth, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, preifat ac

anllywodraethol, elusennau ac aelwydydd. Cyfeiriodd un ymatebwr at y ffaith fod ffermwyr Cymru, oedd yn rheoli 80% o'r tir yng Nghymru, mewn sefyllfa dda i wneud cyfraniad allweddol i'r targed perchnogaeth leol ar gyfer ynni adnewyddadwy.

Roedd un datblygwr yn argymhell er y byddai perchnogaeth leol, yn ddelfrydol, yn agos i ardal unrhyw brosiect, y byddai angen dull daearyddol ehangach traws-Gymru i gwrdd â thargedau prosiectau a thargedau cyffredinol Llywodraeth Cymru. Mewn llawer o ardaloedd gwledig, mae'r arian lleol sydd ar gael i'w fuddsoddi'n debygol o fod yn fach o'i gymharu â chost cyfalaf y gwaith adeiladu. Gellid dadlau y byddai'n well ehangu'r dalgylch buddsoddi'n hytrach na chyfyngu'r buddsoddiad i ganran fach iawn o gyfanswm y buddsoddiad. Teimlai eraill y dylid ond ystyried cynnwys buddsoddiad gan gyrff o Gymru yn y diffiniad.

Roedd 28.57% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r diffiniad arfaethedig. O'r rhai a anghytunai, roedd y rhan fwyaf yn anghytuno oherwydd teimlo bod y diffiniad yn rhy syml ac agored i gael ei gamddefnyddio, gan efallai arwain at elw a budd yn gadael Cymru. Roedd ymatebwyr hefyd yn poeni am gydraddoldeb cymdeithasol ac y byddai pobl fwy cefnog efallai'n elwa mwy na rhai llai cefnog, gan wneud Cymru'n fwy anghydradd fyth. Dyma enghreifftiau o fuddiolwyr anfwriadol a awgrymwyd:

- Tirfeddianwyr mawr, rhai ohonynt efallai'n byw y tu allan i Gymru.
- Unigolion neu gwmnïau cyfoethog.
- Rhai gydag adnoddau sylweddol o ran asedau tir neu amser i greu neu gymryd rhan mewn strwythur ffurfiol.
- Busnesau a leolir y tu allan i Gymru, a allai sefydlu is-gwmni yng Nghymru.
- Buddsoddwyr o'r tu allan i'r Gymru, a allai greu cwmni gyda chyfeiriad yng Nghymru.

Teimlai'r ymatebwyr y dylai perchnogaeth leol ymgorffori pobl ac endidau a leolir yng Nghymru a dod â budd i Gymru, ei phobl a'i chymunedau. Roedd un ymatebwr yn awyddus i'r buddion aros yng nghyffiniau agos y prosiect a theimlai un arall y dylai busnes y perchnogion aros yng Nghymru drwy gydol y prosiect.

Teimlai un ymatebwr y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rhai sy'n berchen ar asedau perchnogaeth leol ddangos tystiolaeth o'r buddion i bobl Cymru, a theimlai un arall y byddai cynnydd yn cael ei wneud drwy osod targedau i ddarparu buddion penodol fel swyddi, cyflogaeth, technoleg ynni adnewyddadwy i gymunedau lleol, contractau a phrentisiaethau.

Roedd un corff trydydd sector yn teimlo y dylai fod yn ofynnol i gynllunwyr roi pwyslais ar fudd i'r economi leol, fel yn yr Alban, ond hefyd ymgorffori buddion anariannol a dangosyddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

I osgoi buddiolwyr anfwriadol, teimlai un ymatebwr y dylid defnyddio'r geiriad "Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh), gan gynnwys ffermydd ac ystadau, a leolir yng Nghymru ac a fu'n masnachu am o leiaf dair blynedd" yn lle 'Busnesau a leolir yng Nghymru'n unig; Busnesau sydd â'u prif bencadlys yng Nghymru; a Ffermydd ac Ystadau'. Credai un arall y dylid cynnwys trothwy trosiant yn y diffiniad o 'busnesau lleol' fel nad oedd busnesau mawr heb fod yn lleol yn elwa o berchnogaeth leol. Teimlai ymatebwr arall y dylid defnyddio'r term 'wedi'i berchnogi'n llwyr yng Nghymru' i atal cyfranddalwyr o wledydd eraill.

Yn ôl un datblygwr roedd angen mwy o fanylion am y mathau o gyrff trydydd sector i'w cynnwys yn y rhestr o berchnogion posib, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a chymdeithasau cydweithredol. Dylai'r diffiniad o elusennau ymgorffori eu his-gwmnïau, eu canghennau masnachu a'u Cyfryngau Dibenion Arbennig. Awgrymwyd hefyd bod angen cynnwys cronfeydd pensiwn gan sefydliadau o Gymru.

Teimlai un ymatebwr y dylai'r diffiniad bwysleisio bod angen rhoi cyfle i ddeiliaid tai gymryd rhan fel unigolion mewn cynlluniau mwy, heb orfod ymrwymo amser i sefydlu a gweithredu fel rhan o grŵp cymunedol. Dywedodd un arall y gallai asedau a greir gyda chyfalaf wedi'i fenthg o'r tu allan i Gymru ymddangos i fod yn asedau perchnogaeth leol, ond mewn gwirionedd eu bod yn cael eu rheoli'n allanol tra'r oeddent mewn dyled i'r benthydwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi pa mor bwysig yw blaenoriaethu anghenion pobl leol mewn datblygiad a hefyd yn deall y gallai fod angen i "ddalgylch" buddsoddi fod yn eang i ddenu digon o fuddsoddiad. Byddwn yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid perthnasol i greu canllawiau ar daro'r cydbwysedd iawn rhwng y gofynion hyn.

Lleisiwyd pryderon am elw'n gadael Cymru felly mae'r diffiniad wedi'i dynhau i adlewyrchu hyn. O ran pryderon bod cwmnïau mawr neu unigolion cyfoethog yn elwa o berchnogaeth leol, er mai'r prif nod yw cadw'r budd yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i sicrhau bod y cyfleoedd a'r buddion a ddaw o ynni adnewyddwy perchnogaeth leol ar gael i bawb. Mae'r diffiniad wedi'i ehangu i nodi'n gliriach y bydd yn cynnwys mwy o fathau gwahanol o gyrff trydydd sector.

Ar sail dadansoddi'r ymatebion i'r cais am dystiolaeth, mae swyddogion yn argymhell y diffiniad diwygiedig canlynol o berchnogaeth leol:

'Diffiniwn gosodiadau ynni 'perchnogaeth leol' fel gosodiadau ynni a leolir yng Nghymru ac a berchnogir gan unigolyn neu unigolion neu sefydliad wedi'i berchnogi a'i leoli'n llwyr yng Nghymru neu sefydliad sydd â'u prif bencadlys yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y categorïau canlynol:

- Ffermydd ac ystadau
- Awdurdodau Lleol
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Busnesau
- Sefydliadau cyhoeddus eraill
- Sefydliadau trydydd sector gan gynnwys mentrau cymdeithasol ac elusennau, eu his-gwmnïau, canghennau masnachu a'u Cyfryngau Dibenion Arbennig
- Aelwydydd a phrosiectau cynhyrchu ynni domestig eraill.

Cyberchnogaeth

Cwestiwn 5. A ydych yn cytuno â'r diffiniad uchod o gyberchnogaeth? Rhowch dystiolaeth o blaid neu dros ddiwygio'r diffiniad o gyberchnogaeth.

Tabl 2 Barn ymatebwyr am Gwestiwn 5

	Nifer yr ymatebwyr	% o'r rhai a fynegodd farn
Cytuno'n gryf	0	0%
Cytuno	10	52.63%
Na'n cytuno nac yn anghytuno	5	26.32%
Anghytuno	3	15.79%
Anghytuno'n gryf	1	5.26%
Cyfanswm	19	

Roedd mwyafrif o 52.63% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig o gyberchnogaeth, gyda lleiafrif o 21.05% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Cyfeiriodd y rhai a gytunai â'r diffiniad at fanteision partneriaethau a fyddai'n cefnogi a galluogi datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy. Pwysleisiodd un corff cyhoeddus fod cyberchnogaeth yn rhoi cyfle i gymunedau a sefydliadau lleol sydd â diddordeb mewn datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy gael sefydlu datblygiadau ar yr un raddfa a welir yn yr Almaen a Denmarc.

Teimlai un ymatebwr y dylid cynnwys cynlluniau rhannu refeniw yn nharged Llywodraeth Cymru ar gyfer perchnogaeth leol. Yn y modelau hyn, gall y gymuned leol elwa o ran o refeniw'r cynllun heb orfod mentro buddsoddi swm sylweddol o gyfalaf. Mae hyn yn arbennig o fuddiol mewn ardaloedd difreintiedig lle mae'r cymunedau lleol yn llai tebygol o gael mynediad at gyfalaf ac mae angen buddsoddi'n weithredol mewn prosiectau i ddarparu buddion uniongyrchol yn y tymor byr (e.e. ar gyfer addysg neu ofal cymdeithasol).

Roedd y rhai a anghytunai â'r diffiniad o gyberchnogaeth yn lleisio pryderon yn bennaf am ddiogelu pobl leol a sicrhau bod y rhai sydd fwyaf angen y budd arnynt yn ei dderbyn. Lleisiwyd pryderon tebyg i'r rhai a gynigiwyd mewn ymateb i gwestiwn 4 yn yr ymateb i gwestiwn 5.

Teimlai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yn y diffiniad bod canran o fod yn rhannog mewn prosiect i'w neilltuo ar gyfer cymunedau neu unigolion er mwyn cynnwys a diogelu buddiannau pobl sy'n byw a gweithio yng Nghymru, nid cyfranddalwyr allanol. Teimlai ymatebwr arall y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull tebyg i'r un yn yr Alban, sef cynnwys pobl sy'n lleol i'r datblygiad o'r cam dylunio ymlaen a rhoi cyfle iddynt ddod yn gyfranddalwyr mewn prosiectau ynni.

Teimlai rhai ymatebwyr y dylai cyberchnogaeth gynnwys sefydliadau cyhoeddus neu gymunedol dim ond fel partneriaid, oherwydd mae'r sefydliadau hyn yn atebol i'r gymuned leol ac felly'n fwyaf tebygol o sicrhau y parheir i ddarparu buddion lleol. Byddai ei agor i'r sector preifat yn ei wneud yn agored i gael ei gamddefnyddio. Gallai cyberchnogaeth hefyd fod rhwng y sectorau cyhoeddus a chymunedol, heb

fod angen partner sector preifat. Teimlai un arall y dylid cynnwys Cwmnïau Gwasanaethau Ynni neu Gwmnïau Cyflenwi Ynni.

Awgrymodd un datblygwr, yn lle gofyn bod 'un neu fwy o'r cyrff perchnogi'n un o'r sefydliadau neu unigolion sydd i'w cynnwys yn y diffiniad o "ynni lleol", y dylai Llywodraeth Cymru ofyn bod "un neu fwy o'r cyrff perchnogi neu rai sy'n derbyn refeniw'n uniongyrchol yn un o'r sefydliadau neu unigolion sydd i'w cynnwys yn y diffiniad o "ynni lleol". Awgrymodd un ymatebwr fod busnesau yng Nghymru, yn enwedig cwmnïau mawr a rhyngwladol, ymhlith y defnyddwyr ynni mwyaf ac yn cyfrannu fwyaf at allyriadau ac y dylid eu cefnogi i gyfrannu at ynni adnewyddadwy yng Nghymru drwy'r targed hwn.

Cynigiodd un datblygwr fod angen eglurder fel y gallai prosiect ddangos ei fod wedi cwrdd â'r meini prawf o ran y gofyniad i 'gynnwys pobl sy'n byw a gweithio yng Nghymru a dod â budd i Gymru'. Fodd bynnag, mae angen digon o hyblygrwydd i beidio â mygu datblygiadau pe na bai digon o awydd neu gapasiti gan bartneriaid lleol. Awgrymodd ymatebwr arall os nad oedd partner o Gymru'n dod o fewn cwrpas y diffiniad, y dylid defnyddio cronfa fudd gymunedol i ddarparu budd cywerth o'r datblygiad. Dylai cydberchnogaeth gynnwys gallu prynu cyfranddaliadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn ein barn ni, dylai cydberchnogaeth gynnwys pobl sy'n byw a gweithio yng Nghymru a dylai ddod â budd i Gymru. Gallai cydberchnogaeth gynnwys pobl sy'n lleol i'r datblygiad, o'r cam dylunio ymlaen, a rhoi cyfle iddynt ddod yn gyfranddalwyr mewn prosiectau ynni.

Byddwn yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid perthnasol i greu canllawiau i sicrhau y daw datblygiadau â budd i'r bobl sydd fwyaf ei angen arnynt lle bo'n bosib, a hefyd i'r rhai y bydd y datblygiadau'n effeithio arnynt. Bydd cymorth gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â datblygiadau'n cael eu diweddarau a'u gwarchod gymaint â phosib.

Bydd sylwadau am fanteision modelau rhannu refeniw'n cael eu hystyried wrth i'r gwaith yn y maes hwn symud ymlaen. Ni ystyrir bod rhannu refeniw'n gydberchnogaeth, yn hytrach model arall yw ar gyfer cadw unrhyw werth ychwanegol yng Nghymru, a allai fod yn fwy priodol i gymunedau nad oes ganddynt yr awydd, capasiti na'r adnoddau i gyfrannu at gydberchnogaeth.

Credwn na ddylai'r diffiniad o gydberchnogaeth fod yn rhy benodol ei ofynion a gwerthfawrogwn fod hyblygrwydd yn allweddol i ganfod atebion sy'n briodol i ardal leol.

Cynigiwn ddefnyddio'r diffiniad diwygiedig canlynol:

"Cydberchnogaeth" yw prosiect wedi'i berchnogi gan fwy nag un endid cyfreithiol. Ceir enghreifftiau lle mae perchnogaeth prosiect wedi'i rannu rhwng datblygwr a grŵp cymunedol, unigolion neu sefydliad cyhoeddus. Gall prosiectau cydberchnogaeth gynnwys mwy nag un sefydliad masnachol. Fodd bynnag, er mwyn

cael ei ystyried fel prosiect cydberchnogaeth o dan darged Llywodraeth Cymru, byddem yn disgwyl i un neu fwy o'r cyrff perchnogi fod wedi'u rhestru yn un o'r categorïau wedi'u cynnwys yn y diffiniad o 'berchnogaeth leol'.

Perchnogaeth Gymunedol

Cwestiwn 6. A ydych yn cytuno â'r diffiniad uchod o berchnogaeth gymunedol? Rhowch dystiolaeth o blaid neu dros ddiwygio'r diffiniad o berchnogaeth gymunedol.

Tabl 3 Barn ymatebwyr am Gwestiwn 6

	Nifer yr ymatebwyr	% o'r rhai a fynegodd farn
Cytuno'n gryf	1	5%
Cytuno	12	60%
Na'n cytuno nac yn anghytuno	2	10%
Anghytuno	5	25%
Anghytuno'n gryf	0	0%
Cyfanswm	20	

Roedd 65% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r diffiniad arfaethedig o berchnogaeth gymunedol, gyda 25% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Dywedodd un oedd o blaid y cynnig ba mor bwysig oedd ymrwymo asedau ac elw menter gymdeithasol yn gyfreithiol i fuddion cymdeithasol a / neu amgylcheddol. Roedd yn teimlo bod y diffiniad yn caniatáu i fudiadau cymunedol gael gafael ar adnoddau, gan gynnwys cyllid, o'r tu allan i Gymru, ac y gallai hyn fod yn bwysig i dwf y sector ynni cymunedol yn y dyfodol.

Credai cefnogwr arall y bydd y model yn caniatáu i elw o ynni adnewyddadwy gael ei fuddsoddi mewn cyflawni amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru.

Lleisiodd un mudiad cymunedol bryderon am broblemau yn y gorffennol lle'r oedd datblygwyr wedi sefydlu Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CIC) i fanteisio ar y cyfle ffermydd solar "5+5". O dan bolisi gan Lywodraeth y DU a gyflwynwyd yn 2015, gallai dau brosiect hyd at 5MW yr un (10MW i gyd) rannu cysylltiad grid a'r ddau elwa o'r FiT lle'r oedd un o'r prosiectau wedi'i berchnogi gan fudiad cymunedol cymwys. Fel arall byddai'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a'r FIT yn cael eu capio ar 5MW. Roedd hyn yn creu cymhelliad ariannol cadarnhaol i ddatblygwyr masnachol a chymunedau gyfranogi mewn cydberchnogaeth. Cafwyd sawl enghraifft ar draws y DU lle'r oedd datblygwyr wedi sefydlu cwmnïau CIC newydd yn lle gweithio gyda chymunedau neu fudiadau cymunedol i ddarparu'r prosiectau hyn. Gallai hyn olygu llai neu ddim rheolaeth leol dros y CIC a'r buddion a ddeuai o'r prosiect.

Cynigiodd corff polisi y dylid disgwyl i bob Cyngor Tref a Chymuned benderfynu beth oedd y cyfle lleol ar gyfer ynni adnewyddadwy newydd yn eu cymuned, gyda chymorth gan eu hawdurdod lleol a Thwf Gwyrdd Cymru. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gan bob cymuned gyfle i elwa o'r newid at ynni adnewyddadwy. Roedd yn nodi bod cyfle i ystyried y gofyniad hwn fel rhan o'r Adolygiad Annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru o beth fydd rôl Cyngorau Tref a Chymuned yn y dyfodol.

Cynigiodd un ymatebwr y gallai'r sefydliadau canlynol gymryd rhan mewn cydberchnogaeth: 'elusen; is-gwmni, wedi'i berchnogi'n llwyr gan elusen; cymdeithas gydweithredol neu fudd cymunedol; neu gwmni buddiannau cymunedol' a leolir yng Nghymru gyda'i asedau a'i elw wedi eu hymrwymo'n gyfreithiol i gyflawni amcanion cymdeithasol a / neu amgylcheddol yng Nghymru.' Awgrymodd ymatebwr arall fod angen cynnwys mentrau cymdeithasol yn glir yn y diffiniad.

Teimlai un ymatebwr fod y diffiniad arfaethedig o berchnogaeth gymunedol yn debycach i berchnogaeth gyda ffocws cymdeithasol / amgylcheddol. Byddai'r diffiniad arfaethedig yn golygu y byddai cymuned oedd am greu prosiect at ddibenion eraill yn wynebu rhwystrau canfyddiad, er y byddai'n brosiect wedi'i berchnogi gan y gymuned. Teimlai'r ymatebwr na ddylai cymunedau oedd am wario arian a threulio amser ac ymdrech yn gweithio gyda'i gilydd ar ddatblygu prosiect er budd unigolion fod o dan anfantais oherwydd na allent ei ddisgrifio fel prosiect wedi'i berchnogi gan y gymuned. Mae strwythur, gyda'i berchnogaeth ynghadw gan y gymuned, yn democrateiddio ynni ac yn rhoi budd i'r gymdeithas ehangach drwy gynyddu gwariant a buddsoddi lleol a dylid ei gefnogi. Awgrymodd ymatebwr arall na ddylid cyfyngu amcanion darparu mentrau cymdeithasol i rai cymdeithasol neu amgylcheddol, ac y gallent gynnwys datblygu economaidd.

Pwysleisiodd un ymatebwr y dylai fod gan gymunedau ryddid i ddewis lle'r oeddent am ddosbarthu eu helw, p'un ai o fewn neu'r tu allan i Gymru. Pe bai'r diffiniad yn cael ei fabwysiadu, mae'n golygu na fyddai'r gymuned yn berchen arnynt pe bai'r buddion yn cael eu dosbarthu y tu allan i Gymru.

Teimlai ymatebwr arall y byddai'r diffiniad arfaethedig yn golygu mai dim ond pobl yn byw yng Nghymru a allai fod yn berchen ar ac elwa'n bersonol o osodiad ynni cymunedol. Dylid ehangu'r diffiniad hwn i nodi'n glir bod croeso i bobl o'r tu allan i Gymru (efallai hefyd o'r tu allan i'r DU) fuddsoddi mewn gosodiad ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru, gyda phob buddsoddwr yn derbyn yr un faint o elw ar eu buddsoddiad ond bod unrhyw ddifidend yn dod i gymunedau yng Nghymru.

Pwysleisiodd un ymatebwr y dylid cynnwys prosiectau storio yn y diffiniad. Credai un arall y dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r ystod o endidau cyfreithiol i sicrhau bod y diffiniad yn ddigon hyblyg i gynnwys arloesi o fewn y sector ynni cymunedol yn y dyfodol a chanolbwyntio'r diffiniad yn fwy ar nodweddion unrhyw sefydliad. Dylai perchnogion neu bartneriaid cymunedol fod yn sefydliad sy'n gynrychiadol o'r gymuned o ran daearyddiaeth, hunaniaeth neu fuddiannau a chanddynt strwythur cyfreithiol priodol sy'n sicrhau bod ei asedau ac unrhyw elw'n cael eu hymrwymo'n gyfreithiol i ddarparu amcanion cymdeithasol a / neu amgylcheddol a / neu economaidd yng Nghymru.

Teimlai un ymatebwr y dylai unrhyw brosiect cydberchnogaeth fod yn gallu dangos yn glir yn ei lywodraethu nad oes unrhyw wrthdaro budd rhwng y datblygwr a'r partner cymunedol yn y prosiect.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cynigir defnyddio'r diffiniad diwygiedig canlynol o berchnogaeth gymunedol:

'Diffiniwn 'perchnogaeth gymunedol' o brosiect ynni adnewyddadwy fel datblygiad ynni adnewyddadwy neu storio adnewyddadwy wedi'i leoli yng Nghymru, wedi'i berchnogi'n llwyr gan fenter gymdeithasol ac sy'n ymrwymo ei hasedau a'i helw i ddarparu amcanion cymdeithasol a / neu amgylcheddol.'

Ymateb Llywodraeth Cymru ar gyfer adran 2

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi cefnogaeth gref yr ymatebwyr i'r diffiniadau. Nodwn mai ffocws y rhan fwyaf o'r sylwadau yw bod angen eglurder ynghylch bwriad, egwyddorion a chanlyniadau. Mae'r ymatebion hyn wedi atgyfnerthu bod angen canllawiau i gynorthwyo rhai sy'n ystyried datblygu prosiectau a hefyd rhai sy'n gwneud penderfyniadau am y buddion sy'n deillio o brosiectau cydberchnogaeth. Mae'r pwyntiau defnyddiol lawer a godir gan yr ymatebwyr wedi eu hadlewyrchu mewn diwygiadau i'r diffiniadau a byddwn yn eu defnyddio i greu canllawiau.

Rydym eisoes wedi ystyried rhai cyfleoedd i gynhyrchu ynni newydd drwy fapio ardaloedd lle mae galw uchel am ynni ochr yn ochr â safleoedd cynhyrchu posib. Wrth i ni ddatblygu Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, byddwn yn ennill dealltwriaeth well o'r galw am wres a phŵer a sut y gallent gefnogi datblygu mwy o brosiectau ynni cydberchnogaeth a pherchnogaeth leol.

Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer adran 2

Byddwn yn cyhoeddi'r diffiniadau diwygiedig yn y Datganiad Polisi ar berchnogaeth.

Drwy'r gweithgor, bwriadwn weithio gyda datblygwyr a'r gwahanol sectorau a enwir yn y diffiniadau i ddatblygu canllawiau, ar gyfer datblygu cynlluniau cydberchnogaeth a hefyd i gynorthwyo'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i benderfynu pa mor effeithiol y mae unrhyw brosiect neilltuol yn cwrdd â bwriad y polisi.

Byddwn yn ystyried rôl y Cynghorau Tref a Chymuned mewn datblygu ynni adnewyddadwy yng nghyd-destun yr Adolygiad Annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru o beth fydd rôl Cynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol.

Adran 3: Tystiolaeth o Fuddion Perchnogaeth

Cliciwch [yma](#) i ddarllen Adran 3 o'r Cais am Dystiolaeth.

Cwestiwn 7: Rhowch dystiolaeth o'r buddion sydd eisoes yn dod i Gymru o brosiectau ynni adnewyddadwy.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod datblygiadau'n darparu buddion ariannol ac anariannol. Derbyniwyd disgrifiadau o'r buddion hyn, gan gynnwys peth tystiolaeth ac enghreifftiau o brosiectau ynni adnewyddadwy yn Lloegr a'r Alban.

Rhoddodd rai ymatebwyr enghreifftiau penodol i ni o brosiectau yng Nghymru, rhai perchnogaeth leol a lle nad oedd perchnogaeth leol ond lle'r oedd y buddion yn dod i'r gymuned leol.

Mae gan lawer o'r prosiectau hyn gronfeydd budd cymunedol ond hefyd yn cynnig cynlluniau cyfranddaliadau i gyllido'r prosiect. Mae un prosiect wedi rhoi rhai o'r cyfranddaliadau i ysgolion lleol a mudiadau lleol eraill ac wedi cefnogi dau gynllun interniaeth. Mae'r prosiect hefyd wedi cefnogi elusen leol ac wedi creu un swydd newydd.

Roedd prosiectau eraill sydd heb berchnogaeth leol yn glir eu bod wedi darparu'r buddion canlynol:

- Cyflogaeth leol
- Prentisiaethau a hyfforddiant
- Busnesau lleol yn ennill gwaith drwy adeiladu fferm wynt
- Prosiectau lleol sy'n ceisio ateb blaenoriaethau'r boblogaeth leol drwy fuddion cymunedol a chyllid o fath arall
- Gosod technoleg adnewyddadwy i'r gymuned leol
- Ymchwil ar gyfer addysg uwch
- Ymweliadau addysgol â'r safle ac ysgolion
- Cronfeydd budd cymunedol

Yn ôl [adroddiad](#) gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a gomisiynwyd yn 2014 roedd prosiectau ynni cymunedol yn cynnig 12-13 gwaith gymaint o werth cymunedol o'i ailfuddsoddi ag y gellid ei gyflawni drwy fodolau oedd yn 100% masnachol.

Yn ôl [arolwg gan y corff Ariannu Ynni Cymunedol](#) roedd mudiadau ynni cymunedol ar draws y DU yn gwario £10k/MW o'r incwm o osodiadau ynni ar gefnogi prosiectau lleol. Er hynny, cyflwynwyd tystiolaeth fod lefel y cronfeydd budd cymunedol o ffermydd gwynt masnachol yn amrywio rhwng £4k a £10k/MW, er bod cronfeydd budd cymunedol o ffermydd gwynt mawr yn tueddu i ddarparu symiau llawer mwy fel rheol nag y gall cynllun bach ei wneud. Roedd adroddiad o Effaith Economaidd a Chymdeithasol Cynlluniau Trydan Dŵr Bach a Chymunedol, i'r Grŵp Rhanddeiliaid Trydan Dŵr, yn nodi y gallai cynlluniau trydan dŵr bach gynhyrchu gymaint â £300,000 o GVA/MW a hyd at gant o swyddi am bob MW, a ystyriwyd i fod yn ddwbl y ffigur ar gyfer cynlluniau masnachol.

Yn ôl [adroddiad gan Community Energy England](#) ar Gyflwr y Sector, hyd at ddiwedd 2016 roedd y 52 o sefydliadau ynni cymunedol a holwyd wedi darparu gwerth dros £620,000 o fudd cymunedol. Tynnodd ymatebwr arall sylw fod cynlluniau ynni cymunedol ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2016-17 wedi cynhyrchu £680,000 o incwm er budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol lleol.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw bod llai na £2 miliwn o gyllid yn y cam cyllid cynnar a roddwyd drwy raglenni fel Ynni'r Fro, y Gwasanaeth Ynni Lleol a'u sefydliadau cyfatebol yn Lloegr wedi ildio £135 miliwn o fuddsoddiad pellach mewn prosiectau ynni cymunedol. Cafodd draean o'r arian yma ei godi drwy werthu cyfranddaliadau.

Drwy ynni cymunedol gall unigolion nad ydynt mewn sefyllfa i sefydlu prosiect eu hunain fynd yn rhannog mewn prosiect ynni cynaliadwy drwy brynu cyfranddaliadau. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod prosiectau yng Nghymru wedi codi dros £6 miliwn drwy werthu cyfranddaliadau cymunedol dros y 5 mlynedd diwethaf. Yn ôl yr adroddiad ar Gyflwr y Sector, hyd at ddiwedd 2016 codwyd dros £60 miliwn drwy werthu cyfranddaliadau ar draws Cymru a Lloegr.

Fodd bynnag, fel y nododd un ymatebwr yn glir, mae talu buddion lleol wedi dibynnu ar daliadau o'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a'r Tariff FIT. Mae felly'n anodd i brosiectau nad ydynt yn derbyn cymorth o'r fath i gynhyrchu gwarged ariannol i gyllido gwaith datblygu ynni cymunedol ehangach.

Cynigiodd un ymatebwr dystiolaeth anecdotaidd fod cyflwyno'r tariffau FIT wedi gweld cynnydd mewn prosiectau ynni adnewyddadwy, yn bennaf gan dirfeddianwyr, busnesau ac unigolion a allai fforddio'r gost o'u sefydlu.

Tynnwyd sylw hefyd at fuddion anariannol datblygiadau, gan gyfeirio at fuddion yn Lloegr a'r Alban yn ogystal ag yng Nghymru. Cyfeiriodd un ymatebwr at [adroddiad Cyflwr y Sector gan Community Energy England](#) ac [adroddiad Ynni Cymunedol Cymru](#), oedd yn cynnig sawl cyfeiriad at ddangos y buddion o brosiectau ynni cymunedol i gymunedau. Roedd y rhain yn cynnwys buddion fel mwy o gydlyniant cymdeithasol, grymuso, gwydnwch, lles cymdeithasol, sgiliau darparu trosglwyddadwy, mwy o wirfoddoli a'u rôl mewn hybu ymwybyddiaeth ehangach o faterion ynni a newid hinsawdd. Gall prosiectau ynni cymunedol hefyd fagu hyder ac annog y gymuned y gefnogi prosiectau eraill fel siopau a thafarndai cymunedol; codi ymwybyddiaeth o faterion ynni ehangach; annog mwy o frwdfrydedd a theimlad o bwrpas yn y gymuned leol a hefyd gwneud y gymuned yn fwy hunan-gynhaliol yn ariannol.

Disgrifiwyd buddion pellach cynlluniau ynni adnewyddadwy lle'r oedd y gymuned yn berchen arnynt ac yn eu rhedeg fel mentrau cymdeithasol a chymdeithasau cydweithredol:

- Mae'r gymuned yn fwy parod i gofleidio'r prosiect ynni adnewyddadwy, drwy fynd yn rhannog ynddo a chael llais mewn sut y byddai'r prosiect yn cael ei redeg a sut y byddai'r budd cymunedol ariannol yn cael ei wario
- Gwerthu trydan i dalu am brosiectau lleol a gwella'r sgôp i ynni gael ei ddosbarthu'n lleol, gan ddysgu o'r peilot Cyd Ynni - Ynni Lleol ym Methesda

- Gofalu am yr amgylchedd drwy gynhyrchu trydan glân ac ymrwymo i warchod yr amgylchedd naturiol yn lleol
- Mwy o ymwybyddiaeth o ynni glân a'r newid yn yr hinsawdd
- Colli llai o gyfoeth o'r economi leol a bod yn gatalydd i berchnogaeth gymunedol mewn meysydd eraill fel adfywio a datblygu'r economi

Soniodd llawer o'r ymatebwyr am leihau allbwn CO₂ o ganlyniad i brosiectau ynni adnewyddadwy. Dyfynnodd un o [adroddiad Cyflwr y Sector gan Community Energy England](#): 'Ar sail gwerth y cynhyrchu blynyddol a adroddir yn yr astudiaeth hon, llwyddodd prosiectau ynni cymunedol i leihau dros 110,000 tonnelli o allyriadau hyd yma. Mae hyn yn cyfateb i 1.2m o deithwyr yn hedfan rhwng Caeredin a Llundain neu allyriadau blynyddol 200,000 o gartrefi.'

Cafwyd tystiolaeth anecdotaidd gan gwpwl o ymatebwyr fod gan ynni adnewyddadwy rôl bwysig i'w chwarae yn y sector amaethyddol, gyda chyfle i arallgyfeirio neu dderbyn taliadau gan ddatblygwyr fel tiffeddianwyr. Aeth un ymatebwr ymlaen i nodi pa mor bwysig oedd y diwydiant amaeth i'r economi wledig a sut y gall incwm o brosiectau ynni adnewyddadwy helpu i wneud busnesau amaethyddol yn fwy gwydn a chyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd y cwestiwn yn y Cais am Dystiolaeth yn cynnig ystod o ffyrdd posib y gallai prosiectau ynni adnewyddadwy roi budd, gan ddarparu'r rhestr ganlynol:

- Perchnogaeth
- Budd economaidd lleol
- Cronfeydd budd cymunedol
- Budd buddsoddwr
- Drwy gyfranddaliadau
- Buddion anariannol

Roedd yr ymatebion i'r adran hon yn bennaf yn cynnig tystiolaeth o brosiectau perchnogaeth gymunedol, sy'n un o rannau cyfansawdd perchnogaeth leol. Mae hyn yn adlewyrchu'r gyfran uchel o ymatebion manwl gan y sector cymunedol. Ni chawsom fanylion am y budd cyffredinol sy'n deillio o berchnogaeth cynlluniau gan fusnesau, o Gymru nac o unman arall.

Fodd bynnag, rydym wedi ystyried tystiolaeth gan ymatebwyr a chan y cynlluniau a gefnogwyd gennym yn uniongyrchol yn y sectorau cyhoeddus a chymunedol. Mae tystiolaeth dda o'r budd sy'n deillio o gynlluniau budd cymunedol. Mae ystyried y dystiolaeth yn adroddiad 2014 yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd y gall cynlluniau perchnogaeth lwyr ddarparu 12 gwaith y budd o'i gymharu â'r budd cymunedol a ddaw o gynlluniau 100% perchnogaeth breifat yn rhoi peth dealltwriaeth o faint y cyfle a gyflwynid o fod yn berchen ar gyfran fwy o'r ynni a gynhyrchir ac a ddatblygir yng Nghymru.

Rydym wedi profi hyn drosom ein hunain yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru, drwy fenter Twf Gwyrdd Cymru sydd bellach yn rhan o Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, wedi rhoi benthyciad cyllid i Gyngor Sir Fynwy i adeiladu eu Prosiect Solar yn Oak Grove. Rhoddodd Llywodraeth Cymru £4.5m i'r prosiect £5m gan ddisgwyl y byddai'r prosiect yn creu budd ariannol o tua £500k y flwyddyn. Er bod y cymhorthdal o dan y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy wedi cyfrannu'n sylweddol at fudd ariannol y prosiect, bydd y prosiect wedi talu ei holl gyllid yn ôl ymhen wyth mlynedd ac yna'n cynhyrchu budd ariannol net o tua £6m dros ugain mlynedd bywyd y prosiect. Os cymerwn y posibilrwydd arall o £5k y flwyddyn am bob MW, byddai'r budd ariannol i Sir Fynwy ond wedi bod yn £500k dros 20 mlynedd.

Mae hyn yn cadarnhau ein persbectif y byddai cadw cyfran gymesur o'r budd o gynlluniau newydd yng Nghymru'n gyson â'r nod o gynyddu lles yng Nghymru.

Cwestiwn 8: Rhowch dystiolaeth o werth cymharol y gwahanol fuddion a ddisgrifir yn yr adran uchod. Fel rhan o'r asesiad hwn, byddem yn croesawu tystiolaeth o beth ddylai'r blaenoriaethau gweithredu fod i ennill mwy o fuddion i Gymru.

Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gymysg. Dywedodd rai ymatebwyr y bydd angen i bob cymuned flaenoriaethu'r buddion ac nad lle Llywodraeth Cymru fyddai gwneud hyn, oherwydd gallai'n hawdd gyfyngu ar y budd cymdeithasol y gallai prosiect ei ddarparu. Teimlai un ymatebwr yn sicr bod angen rhoi blaenoriaeth i'r canlynol:

- Mwy o ddealltwriaeth o ynni ymhlith y gymuned
- Datblygu sgiliau ymhlith y gymuned
- Pa mor dderbyniol oedd y prosiect yn yr ardal leol
- Mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy gefnogi costau tanwydd is
- Cyflawni blaenoriaethau lleol eraill gyda'r incwm o'r prosiect
- Y potensial i reoli ei chyflenwad ynni ei hun

Roedd rhai ymatebwyr wedi darparu gwerth cymharol y buddion a ddisgrifiwyd yn y cwestiwn blaenorol.

Awgrymodd un ymatebwr fod rhoi cyfle i bobl leol brynu trydan adnewyddadwy wedi'i gynhyrchu'n lleol pan fydd digonedd ohono, a phan fydd felly'n rhatach, yn grymuso cymunedau i gyfrannu'n weithredol at leihau biliau ynni a chefnogi datgarboneiddio ar yr un pryd, gan wella diogelwch ynni a hyrwyddo fforddiadwyedd.

Dyfynnodd un ymatebwr [astudiaeth gan Asiantaeth Amgylcheddol Ewrop](#) yn nodi bod mentrau cymunedol yn strategaeth lleihau galw effeithiol i sicrhau toriad carbon o 15-20% gan brofi i fod yn gadarn yn y tymor hir, o'i gymharu â thoriad carbon o 5-10% drwy fesurau fel mesuryddion clyfar a hunan-adrodd eich defnydd o ynni. Awgrymodd yr ymatebwr y gellid hwyluso'n well drwy 'fodel prisio newydd' yn canolbwyntio ar gymunedau oedd wedi cymryd rheolaeth dros eu defnydd o ynni, fel gydag Ynni Lleol ym Methesda. Teimlai ymatebwr arall mai cymryd rheolaeth dros gyflenwad ynni a chynnig atebion i dlodi tanwydd oedd buddion pwysicaf cydberchnogaeth.

Cafwyd rhai cyfraniadau defnyddiol ar werthuso'r ystod lawn o effeithiau a buddion prosiectau ynni.

Tynnwyd sylw fod Community Energy Scotland wedi cynnal [arolwg effaith](#) i edrych ar effeithiau cymdeithasol ei waith yn cefnogi prosiectau. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebwr mai ychydig iawn o waith a wnaed i adnabod methodolegau a metrigau i fesur budd cymdeithasol a bod yr holl dystiolaeth yn ddarniog ac anecdotaidd. Cyfeiriodd un arall at waith gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gyda'i phartneriaid, i ystyried buddion cymdeithasol ac economaidd cynlluniau ynni cymunedol.

Mae'r New Economics Foundation wedi gweithio â phrosiect '[Going Carbon Neutral](#)' Ashton Hayes i ddatblygu cyfres o fetrigau ar Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad. O dan Gwestiwn 7, cyfeiriodd ymatebwr arall at waith sy'n cael ei wneud i ddatblygu

offeryn monitro a gwerthuso safonol ar gyfer prosiectau ynni cymunedol yn y DU <https://www.pureleapfrog.org/monitoring-and-evaluation>.

Teimlai ymatebwr arall y gallai'r cynigion wneud niwed i'r amgylchedd ac i gydlyniant cymunedol gan awgrymu pe bai cymunedau'n cymryd rheolaeth dros eu cyflenwad trydan y dylent ddewis eithrio o gyflenwad cyhoeddus yn llwyr a bod yn gwbl annibynnol, ac na ddylid diystyru gwerth y grid.

Dywedodd un ymatebwr fod datblygu ynni adnewyddadwy'n helpu'r targedau ynni adnewyddadwy gyda neu heb fuddsoddiad y gymuned. Mae datblygiadau'n sicrhau y daw budd i'r economi leol drwy gyflogi pobl leol yng nghymunedau adeiladu a gweithredu'r prosiect. Teimlai'r ymatebwr na ddylai Llywodraeth Cymru ystyried atal datblygiad os oedd y datblygwr wedi gwneud ymdrechion rhesymol i hwyluso datblygu cymunedol ond heb lwyddo i'w ddarparu yn y pen draw.

Teimlai ymatebwr arall na ellid ateb y cwestiwn oherwydd ni allwch reoli'r hyn na allwch ei fesur. Oherwydd na chynhyrchir ffigurau mantolen daliadau ar gyfer Cymru ar gyfer ynni, ni oes modd mesur faint o arian sy'n gadael Cymru o ganlyniad i bŵer yn cael ei brynu gan gwmnïau o'r tu allan i Gymru. Dylai Llywodraeth Cymru felly gynhyrchu mantolen danwydd ac ynni chwarterol ar gyfer Cymru.

Credai rhai ymatebwyr na roddir pwysau sylweddol yng Nghymru i brosiectau gyda pherchnogaeth leol neu gymunedol, neu sy'n cynnig cydberchnogaeth neu gyfran o'r buddion economaidd. Dylai hyn fod yn ystyriaeth gynllunio o bwys er mwyn creu cymhelliad ar gyfer hyn. Byddai'r gofyniad hwn ynghyd â chanllawiau clir ar beth sydd angen ei ddangos, yn helpu i sicrhau a chreu cymhelliad ar gyfer yr agweddau hyn ar brosiect.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cytunwn nad lle Llywodraeth Cymru yw blaenoriaethu gwahanol fathau o fuddion amgylcheddol a chymdeithasol. Roedd ffocws y cwestiwn hwn ar sefydlu'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng cynlluniau perchnogaeth lwyr a chynlluniau lle darperir cronfa fudd leol fel iawndal am eu heffaith. Mae'r mater hwn yn sylfaenol i'r dull o gadw mwy o werth lleol drwy ddatblygu cydberchnogaeth a pherchnogaeth leol.

Er i ni dderbyn tystiolaeth o waith rhagorol gan ddatblygwyr masnachol o bob maint o ran darparu budd lleol drwy gronfeydd cymunedol a chyflogaeth leol, ni dderbyniwyd dim manylion am werth cymharol y rhain o'i gymharu â'r gwerth a'r elw cyffredinol sy'n deillio o ddatblygiad cyfan, er sicrhau trylowyder ac ymddiriedaeth rhwng y partion.

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, mae tystiolaeth gan ein swyddogion cymorth o fodolau ariannol amrywiol ddatblygiadau cyhoeddus a chymunedol yn cefnogi'r farn bod gwir werth datblygiad ynni'n gorwedd mewn perchnogaeth a bod hyn yn cronni yng nghymunedau cynnar datblygiad lle mae'r risg yn uwch.

Mae'r pwyntiau ynghylch pa mor anodd yw mesur effaith datblygiad ar ardal leol yn rhai da. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol i swydd PhD tair blynedd ym Mhrifysgol Bangor, ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, i astudio ynni adnewyddadwy cymunedol. Yn defnyddio pum astudiaeth achos o gwmpas Cymru, y nod yw dangos effeithiau cymdeithasol lleol ynni adnewyddadwy cymunedol gan ystyried y prosesau'n ymwneud â sbarduno a chael cymunedau lleol i ymgysylltu, gwerthuso'r canlyniadau i'r gymuned leol a'r berthynas rhwng y ddau beth.

Gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori â'r gweithgor ar fod angen cyflawni dadansoddiad bylchau o argaeledd dulliau o fesur buddion cymdeithasol, gyda golwg ar fabwysiadu neu ddatblygu methodoleg gryfach.

Adran 4: Heriau prosiectau cydberchnogaeth

Cliciwch [yma](#) i ddarllen Adran 4 o'r Cais am Dystiolaeth.

Cwestiwn 9: Rhowch dystiolaeth o heriau penodol yn ymwneud â phrosiectau cydberchnogaeth. Fel rhan o'r asesiad hwn, byddem yn croesawu tystiolaeth i ddangos a yw cydberchnogaeth ynddo'i hun yn rhwystr i sefydlu prosiectau ynni adnewyddadwy.

Cynigiodd ymatebwyr ystod eang o heriau gyda phob agwedd ar ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy lleol. Cyfeiriwyd at yr heriau canlynol gyda chydberchnogaeth:

Partneriaethau anghyfartal

Lleisiwyd pryderon bod gan y datblygwr masnachol reolaeth dros y trafodaethau oherwydd eu bod yn fwy tebygol o fod â mwy o adnoddau fel staff cyflogedig, arbenigedd, timau cyfreithiol, cyllid, mynediad at dir a chysylltiadau grid. Mae grwpiau cymunedol yn dibynnu ar wirfoddolwyr, gyda llai o arbenigedd ac fel arfer heb fawr ddim mynediad at gyllid ar gyfer ffioedd cyfreithiol a chyfalaf mentro. Derbyniwyd tystiolaeth anecdotaidd fod datblygwyr weithiau'n dechrau trafod gyda mudiad cymunedol ond nad oedd y gymuned wedi gallu rhoi'r cytundeb cyfreithiol yn ei le i warchod eu buddiannau.

Ymgysylltiad y Gymuned

Roedd un datblygwr yn pryderu am ymwybyddiaeth isel o'r cysyniad o gydberchnogaeth fel bod llawer iawn o adnoddau'n cael ei wario ar godi ymwybyddiaeth ac addysgu pobl a mudiadau lleol. Teimlai'r datblygwr y dylai Llywodraeth Cymru lansio ymgyrch ymwybyddiaeth fawr ar gydberchnogaeth ac annog ymgysylltiad pobl nad ydynt fel arfer yn meddwl gormod am 'ynni'.

Cyfeiriwyd at y ffaith nad yw pob cymuned yn gallu ymgysylltu â phrosiectau o'r fath. Nid yw pawb mewn sefyllfa i ennill o gontractau lleol, cymryd rhan mewn cymuned neu'n gyda'r modd ariannol i fuddsoddi felly ni fyddent efallai'n gallu manteisio ar rai neu ddim o'r buddion. Gallai hefyd fod problem nad oedd gan bobl yn y gymuned hyder i ymgeisio am grantiau: efallai na fyddai'r bobl fwyaf anghenus yn byw'n agos i'r ardal a allai ennill budd. Os bydd Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar strwythur perchnogaeth penodedig, bydd yn cyfyngu ar faint o brosiectau fydd yn gallu creu buddion cymdeithasol.

Diffyg awydd yn lleol i gymryd rhan mewn prosiectau ynni adnewyddadwy

Teimlai un datblygwr pe byddent yn gwneud pob ymdrech resymol i annog y gymuned leol i fynd yn rhannog mewn prosiect, ond roedd y gymuned yn amharod neu'n methu â gwneud hynny, na ddylai hyn atal y prosiect rhag cael ei ddatblygu.

Datblygiadau a datblygwyr lluosog

Cyfeiriodd un datblygwr at y risg bosib o ddatblygwyr masnachol lluosog yn cysylltu â chymunedau oherwydd eu bod mewn ardaloedd deniadol ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy, o ganlyniad i bolisi cynllunio a daearyddiaeth. Mae partneriaid cymunedol neu leol eraill yn annhebygol o fod â'r capasiti i fod yn rhan o gynlluniau lluosog.

Hygrededd

Cododd mudiad trydydd sector y mater bod cymunedau'n aml yn cael eu gweld fel partner risg oherwydd eu bod yn dibynnu ar wirfoddolwyr, yn aml yn ddibrofiad a heb hanes blaenorol fel arfer o ddatblygu prosiectau ynni. Dywedodd Ynni Cymunedol Cymru wrthym eu bod yn datblygu dull i helpu i oresgyn hyn drwy roi benthyg hygrededd eu cyfarwyddwyr i grwpiau cymunedol.

Budd elw bach a hyfywedd ariannol

Yn ôl un datblygwr dylai Llywodraeth Cymru ystyried a yw modelau ariannol cydberchnogaeth yn cynnig digon o fudd ariannol i gymunedau mewn byd ôl-gymhorthdal. Mewn hinsawdd ariannol fwyfwy heriol, gallai cynnig cydberchnogaeth effeithio ar hyfywedd rhai prosiectau adnewyddadwy, yn enwedig i ddatblygwyr llai. Credai'r datblygwr ei bod yn anodd, mewn byd ôl-gymhorthdal, i brosiectau ysgwyddo cost cydberchnogaeth a thaliadau budd cymunedol, ac y byddai'n rhaid i'r gymuned ddewis y naill neu'r llall. Dywedodd un ymatebwr y gallai cynllun cydberchnogaeth lleol roi baich ariannol ychwanegol ar brosiect. Awgrymodd hefyd, wrth i brisiau cyfanwerthu godi, y dylai'r budd cymdeithasol gael ei gysylltu i'r prisiau hyn, gyda phrosiectau'n ysgwyddo'r gost pan fedrant eu fforddio.

Risg ariannol i'r cyhoedd

Dywedodd un datblygwr fod angen bod yn ofalus wrth annog y cyhoedd i fuddsoddi mewn prosiectau o gofio y bydd buddsoddi'n fwy o risg ac yn cynnig llai o fudd ariannol nag yn y gorffennol. Mae gan bobl opsiwn effeithlon eisoes i fuddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy drwy gronfeydd seilwaith a reolir fel y Grŵp Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (TRIG) sydd wedi'i restru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain ac sy'n berchen ar bortffolio mawr o brosiectau adnewyddadwy ar draws y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Gallai dull amgen o'r fath o fuddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy fod yn fwy priodol i lawer o gymunedau. Oherwydd bod y risg wedi'i gwasgaru ar draws nifer o brosiectau, mae'r elw o fuddsoddi'n debygol o fod yn fwy sefydlog. Mae'r cronfeydd hyn hefyd yn brofiadol ac wedi eu rheoleiddio'n gaeth, sy'n cynnig mwy fyth o warchodaeth i'r buddsoddwr.

Mynediad at dir

Soniodd llawer o'r ymatebwyr ba mor anodd oedd cael gafael ar dir i'w ddatblygu. Nid oes gan grwpiau cymunedol fynediad yn aml at dir nac adeiladau i ddatblygu prosiectau. Mae'n gryn her trefnu i brynu a phrydlesu tir a chytundebau gyda thrydydd partïon. Teimlai un ymatebwr y dylai fod grwpiau cymunedol yn gallu cael mynediad at dir cyhoeddus ar gyfer prosiectau ynni cydberchnogaeth.

Hwyluso mynediad i gymunedau at dir Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW)

Credai un ymatebwr y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ailgyflwyno pob prosiect ar dir cyhoeddus (gan gynnwys NRW) i gynnwys gofyniad bod y gymuned yn berchen ar o leiaf 50%.

Nifer y partneriaid yn rhan o brosiect

Dyweddod un corff cyhoeddus y gall sicrhau consensws mewn grŵp cymunedol i fynd yn rhannog mewn prosiect ynni adnewyddadwy fod yn anodd gan achosi oedi. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu mwya'n byd o bartneriaid, y mwyaf anodd a hirach y mae'n ei gymryd i sefydlu prosiect.

Diffyg cymhellion ar gyfer tirlfeddianwyr

Dyweddod undeb amaethwyr fod gan dirfeddianwyr bryderon am golli rheolaeth gyfreithiol dros eiddo a mynediad am flynyddoedd lawer. Nid yw'r cymhellion yn gwrthbwyso 'colli' tir a'r amser a'r arian a fuddsoddir i godi prosiect ar ei draed.

Credai ymatebwyr fod rhai prosiectau cymunedol weithiau'n cael eu gyrru gan 'newydd ddyfodiaid naif' sy'n dod i ardal gyda syniadau idealistig. Ofnai tirlfeddianwyr na fydd grwpiau cymunedol o gwmpas mewn blynyddoedd i glirio unrhyw 'lanast' cyfreithiol neu ymarferol, gan adael y tirlfeddiannwr i 'ddal y babi'. Yn aml iawn nid yw pobl yn y gymuned yn ymwybodol o'r rheolau'n ymwneud â thir a dŵr, yn enwedig os yw'r tir yn rhan o gynlluniau amgylcheddol anhyblyg. Os yw'r tir wedi'i osod i denant, gall hyn hefyd fod yn rhwystr.

Diffyg cymhellion ar gyfer datblygwyr

Yn ôl menter gymdeithasol, oni bai fod budd neu y byddai'n rhaid i'r datblygwr masnachol wneud hynny, ni wnânt wario'r arian, amser na derbyn y cymhlethdod ychwanegol ynghlwm wrth sefydlu a chwblhau prosiect cydberchnogaeth.

Credai'r ymatebwr fod y pethau sy'n sbarduno cydberchnogaeth yn yr Alban yn cynnwys y fantais o fod â phartner cymunedol yn y cam cynllunio, y canllawiau arfer da a'r [manteision o dderbyn rhyddhad o dalu ardrethi busnes](#). Mae cyfrifoldeb corfforaethol ar gynnydd, gwneud y peth iawn yng ngolwg datblygwyr masnachol, sy'n seiliedig ar ba mor fawr yw datblygiadau a ddaw gerbron sydd dros 50MW, lle mae'r cynllunio'n cael ei benderfynu gan Lywodraeth yr Alban.

Awgrymodd ymatebwr arall y gallai cefnogaeth leol i brosiect fod yn fantais i gael caniatâd cynllunio. Dylid creu cymhellion i ddatblygwyr gynnig cydberchnogaeth drwy'r broses gynllunio, mynediad at dir cyhoeddus, ardrethi busnes is neu gynnig prisiau ynni gwarantedig neu fynediad blaenoriaeth i'r grid.

Roedd nifer o sylwadau'n ymwneud â'r dull sy'n cael ei arfer yn yr Alban. Yn ôl un datblygwr mae cynnig cydberchnogaeth yn yr Alban wedi'i gysylltu i ganiatâd cynllunio. Mae elw o gydberchnogaeth wedi'i gysylltu i'r budd economaidd net, gan gyfyngu cymuned i brosiectau cynhyrchu incwm a chreu swyddi. Mae hyn yn

cyfyngu'r gymuned o ran beth y gall wario'r elw ariannol arno ac yn gofyn cyflawni asesiad o fudd economaidd net cynlluniau cymunedol, sy'n gallu bod yn ddrud.

Adroddwyd mai'r sefyllfa yn yr Alban yw bod memorandwm dealltwriaeth yn cael ei gytuno rhwng y datblygwr a'r grŵp cymunedol cyn gwneud cais cynllunio. Mae hyn yn rhoi pwysau ar y datblygwr oherwydd bod pwysau gan y grŵp cymunedol i wybod pa fudd a ddeuai o brosiect posib. Mae'n eithriadol anodd hyn mor fuan yn y broses o sefydlu datblygiad. Credai'r ymatebwr pe byddid yn symud ymlaen gyda chydberchnogaeth bod angen rhoi cytundebau cyfreithiol yn eu lle ar ôl derbyn caniatâd.

Cyllido prosiectau rhannu referniw

Yn ôl un datblygwr, i lawer o ddatblygwyr masnachol mawr, mae'n debyg mai'r model rhannu referniw o gydberchnogaeth a fyddai'r unig opsiwn y gallent ei ddarparu gyda phartneriaid cymunedol. Yn ôl adborth o sgysiau gyda Local Energy Scotland a benthycwyr masnachol, er bod llawer o'r cynlluniau hyn yn cael eu rhoi gerbron, ychydig iawn o awydd sydd gan fenthycwyr masnachol i roi benthyg arian i gymunedau. Mae Llywodraeth yr Alban wedi darparu cyllid benthyg drwy Fenter yr Alban a'r Gronfa Buddsoddi mewn Ynni Adnewyddadwy. Ond mae adborth gan rai cymunedau yn yr Alban wedi nodi pryderon ynghylch y cyfraddau llog cymharol uchel, gan olygu efallai nad yw cynlluniau'n apelio gymaint.

Ffin ddaeryddol effaith prosiect

Yn ôl un corff polisi, mae'r Alban yn defnyddio'r model "ardaloedd yr effeithir arnynt" i adnabod pwy y mae datblygiad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt ac felly pwy y dylid cynnig cydberchnogaeth iddynt. Mae hyn yn codi'r cwestiwn o ba mor eang y dylid mesur ffin ddaeryddol effaith prosiect. Yn yr Alban, mae datblygwyr yn dechrau trafodaeth â'r gymuned leol i benderfynu ar yr ardal yr effeithir arni.

Dyrannu buddion

Mae un corff polisi wedi argymhell bod angen ystyried sut i sicrhau bod cymunedau lleol yn cael budd o'r cynlluniau yn eu hardal ar wahân i gael cynnig y cyfle i brynu cyfranddaliadau, oherwydd mae hyn yn eithrio pobl ar incwm isel nad oes ganddynt lawer o gynilion. Dylid ystyried cymhellion fel cynnig trydan rhatach.

Brocera

Mae angen system frocera i ddod â chymunedau budd a datblygwyr at ei gilydd ac i baru opsiwn cyllid da gyda phrosiect hyfyw.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cafodd dystiolaeth a barn eu cyflwyno am ystod o heriau'n ymwneud â datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy. Rydym wedi nodi'r holl heriau y tynnwyd sylw atynt. Mae'r rhai'n ymwneud â datblygu ynni adnewyddadwy'n gyffredinol yn cael eu

hystyried fel rhan o'n dull o gyflawni'r targed 70%. Fodd bynnag, roedd y cwestiwn yn y cais hwn am dystiolaeth yn ymwneud â heriau penodol i brosiectau cydberchnogaeth.

Mae datblygu prosiectau cydberchnogaeth yn amlwg yn cyflwyno amrywiaeth o heriau a dylid ystyried yn ofalus y mesurau sydd angen eu cymryd i'w hateb yn effeithiol. Rydym wedi mynegi'r farn o'r blaen y dylai cydberchnogaeth fod ar gael gyda phrosiectau mawr masnachol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i fentrau cymunedol a chymdeithasol sy'n datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy ers 2010. Mae'r gwasanaeth wedi darparu cymorth drwy Swyddog Datblygu a chynghor ariannol a thechnegol, ynghyd â benthyciadau datblygu referniw a chyfalaf i symud prosiectau ynni adnewyddadwy ymlaen at y cam comisiynu. Yng Nghymru mae'r gwasanaeth wedi llwyddo ac yn cael ei werthfawrogi gan ddefnyddwyr gwasanaeth gydag elfennau ohono'n cael eu defnyddio i oleuo sefydlu Local Energy Scotland.

Rydym hefyd wedi rhoi cymorth i gyrff cyhoeddus i ddatblygu amrediad o brosiectau arbed ynni a chynhyrchu ynni drwy ddarparu cynghor technegol ac ariannol, benthyciadau cyfalaf ac ystod o wahanol ddulliau o gefnogi'r darparu. Cafodd y gwasanaethau hyn eu cyfuno i greu Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth tebyg ac yn annog y sectorau cyhoeddus a chymunedol i weithio'n agosach gyda'i gilydd ar brosiectau ynni. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r gwasanaeth i ystyried sut i gyflawni'r targed o ddarparu mwy o berchnogaeth leol drwy brosiectau cydberchnogaeth a lleol.

Byddwn yn parhau i weithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod ein dull yng Nghymru'n adeiladu ar arfer da, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd o gydberchnogaeth yn yr Alban.

Rydym hefyd yn gweithio drwy'r gwasanaeth i ystyried rôl tir cyhoeddus mewn datblygu mwy o brosiectau cydberchnogaeth.

Derbyniwyd nifer o sylwadau gan ymatebwyr yn ymwneud â'r gyfundrefn gynllunio. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), wrth wneud penderfyniadau, rhaid ystyried yr effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a hirdymor. Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi cael ei ailddrafftio'n unol â'r Ddeddf. Mae'n ofynnol i bob datblygwr, lleol neu beidio, nodi'n glir beth fydd buddion ac effeithiau datblygiad.

Rydym yn cryfhau ein polisiâu cynllunio ym Mholisi Cynllunio Cymru, ein dogfen bolisi genedlaethol ar gynllunio defnydd tir, er mwyn eu cysoni â'r hierarchaeth ynni. Mae ein dogfen ymgynghori ddrafft ddiweddar yn rhoi pwyslais ar ddatblygiadau sy'n arbed ynni ac ar hyrwyddo ynni adnewyddadwy. Mae ein polisi glo drafft yn nodi'n glir na ddylid caniatáu cynigion ar gyfer datblygu pyllau glo brig, dwfn neu i waredu rwbwl o byllau glo.

Rydym am i awdurdodau cynllunio lleol fod yn gadarnhaol am ynni adnewyddadwy ac felly'n cyflwyno gofynion mwy penodol bod awdurdodau lleol yn adnabod yn ofodol unrhyw ardaloedd ar gyfer datblygiadau cynhyrchu gwynt a solar newydd ac yn gosod targedau lleol ar gyfer ynni adnewyddadwy yn eu cynlluniau lleol. Rydym yn gweithio drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau ynni rhanbarthol fel bod mwy o gynlluniau cymunedol a pherchnogaeth leol yn cael eu cyd-ddatblygu.

Cwestiwn 10. Rhowch dystiolaeth o enghreifftiau lle y cafodd her neu rwystr i gydberchnogaeth ei ddatrys yn llwyddiannus.

Tynnodd ymatebwyr sylw at lwyddiant y gwaith o ateb heriau a rhwystrau o dan y themâu canlynol:

Cymorth i'r Gymuned

Dywedodd gwpwl o ymatebwyr fod Local Energy Scotland (LES) yn darparu tîm o swyddogion datblygu sy'n rhoi cyngor diduedd i brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol a pherchnogaeth leol. Maen nhw'n cyllido cyngor cyfreithiol ac ariannol ac yn tywys tîrfeddianwyr posib drwy'r broses. Roedd y ddau ymatebwr yn argymhell y byddai system debyg yn syniad da yng Nghymru pe symudir ymlaen gyda chydberchnogaeth.

Codi Ymwybyddiaeth

Yn ôl un datblygwr, mae trafodaeth yn yr Alban am ddyfodol buddion cymunedol a chydberchnogaeth yn dechrau ehangu i gwmpasu'r buddion ehangach sy'n deillio o brosiect neu ddatblygiad.

Cynllunio

Teimlai rhai ymatebwyr, oherwydd bod yr elw'n fach a bod cytundebau cydberchnogaeth yn ychwanegu cost a chymhlethdod, y gellid defnyddio'r system gynllunio fel cymhelliad i ddatblygwr fod yn rhan o gytundeb cydberchnogaeth. Er bod yn rhaid i benderfyniadau cynllunio fod yn seiliedig ar asesiad o'r effeithiau, dylai'r system gynllunio roi mwy o bwysau i fuddion cymdeithasol ac economaidd cynlluniau cydberchnogaeth a dylai hyn ystyried effeithiau hirdymor y cynlluniau hyn.

Ateb pryderon tîrfeddianwyr

Awgrymodd un undeb amaethwyr, os am ateb pryderon tîrfeddianwyr, bod angen cynnwys pobl fel asiantau tir amaethyddol wrth ddatblygu prosiectau. Oherwydd eu bod yn deall y pryderon ymarferol a chyfreithiol sydd gan dirfeddianwyr, gellir ystyried y rhain yn ddigon buan a rhoi sylw iddynt drwy gytundebau cyfreithiol.

Ymgysylltiad y Gymuned

Dangosodd brofiad un datblygwr fod y gwerth mwyaf yn cael ei greu drwy ddeialog â chymunedau. Byddai'r hyblygrwydd i ddiffinio'r ateb gorau ar gyfer prosiectau unigol yn golygu bod y gwerth mwyaf posib yn cael ei drafod a'i greu gan gynnwys cronfa fudd gymunedol a chyfle ar gyfer cydberchnogaeth, ond heb ei gyfyngu i hynny. Gallai polisi ar gydberchnogaeth gynnwys cymunedau yn eu datblygiad ynni lleol mewn ffordd gwbl newydd a byddino mwyafrif sylweddol o bobl i gefnogi ynni adnewyddadwy.

Ystyriwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod budd cynlluniau'n cael ei gyflwyno'n iawn o ran buddion masnachol i gymunedau a pherchnogion, yn hytrach na mewn ffordd sy'n awgrymu y dylid gweld unrhyw fuddsoddiad fel rhywbeth 'er lles cymdeithas yn

gyffredinol' wrth fynd i'r afael â'r newid hinsawdd. Efallai mai cyrff fel Cyngorau Cymuned yw'r bobl orau i hyrwyddo a gyrru prosiectau.

Ardrethi Busnes a Buddion i Ddatblygwyr

Awgrymodd un corff trydydd sector y dylai fod rhyddhad 100%, fel yn yr Alban, o orfod talu ardrethi busnes ar gyfer pob prosiect ynni cymunedol yng Nghymru. Dylai fod budd hefyd i ddatblygwyr sy'n galluogi cydberchnogaeth. Fel yn yr Alban, byddai hyn yn sbarduno cyd-fentrau rhwng grwpiau ynni cymunedol a datblygwyr masnachol drwy wneud partneriaid cymunedol yn syniad mwy apelgar.

Mynediad at dir ac adeiladau cyhoeddus

Teimlai un ymatebwr fod potensial aruthrol i wneud defnydd mwy cynhyrchiol o dir ac adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio ac y dylai fod gan unrhyw ddatblygiad ar dir cyhoeddus elfen o berchnogaeth leol neu gymunedol. Defnyddiodd yr opsiwn prydlesu diweddar a gynigiwyd gan NRW yng Nghoedwig Alwen y broses cynnig opsiynau i annog cynigion sy'n cwrdd ag amcanion ac uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gryfhau'r cymhelliad i ddatblygu prosiectau cydberchnogaeth.

Cwmnïau Ynni Cydweithredol

Awgrymodd un ymatebwr y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ymhellach i brofiad Energy4All a fu'n gweithio gyda chwmni Falck Renewables, gan helpu i greu nifer o bartneriaethau ynni adnewyddadwy rhwng masnachwyr a chymunedau yn yr Alban ac yn Lloegr.

Yn ôl un corff trydydd sector mae cymdeithasau cydweithredol yng [Ngwlad Belg](#) yn cyflenwi miloedd o gwsmeriaid a'u cynnwys mewn rhaglenni arbed ynni gweithredol.

Cymorth Parhaus

Teimlai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyllido'r Gwasanaeth Ynni Lleol a darparu grantiau, benthyciadau datblygu a chymorth gan swyddogion datblygu. Roedd angen i'r grantiau a'r benthyciadau datblygu dod mor hyblyg â phosib a gallai fod angen darparu mwy o gyllid o ystyried maint yr uchelgais o du Llywodraeth Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ychydig iawn o ymatebion oedd yn cyflwyno tystiolaeth o enghreifftiau lle y cafodd heriau a rhwystrau i gydberchnogaeth eu hateb yn llwyddiannus. Mae hyn yn adlewyrchu cyn lleied sydd o'r prosiectau hyn hyd yma yn y DU.

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion fod angen cymorth parhaus, o ran rhoi'r adnoddau i gymunedau fod yn rhan o brosiectau a hefyd o ran sefydlu a datblygu dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng partneriaid posib mewn cynlluniau. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth a gyflwynwyd ac yn gweithio â phob sector i barhau i ddatblygu cymorth ac arweiniad.

Er enghraifft, mewn un rhan o'r Almaen, sefydlwyd nod siarter ar gyfer datblygwyr. Fe'i defnyddir i nodi eu bod yn glynu wrth gyfres benodol o arferion wrth weithio gyda chymunedau lleol. Gellid mabwysiadu hyn yng Nghymru fel y gallai cymuned ei ddefnyddio i sefydlu o flaen llaw faint o ymrwymiad sydd gan ddatblygwr posib i gydweithio â nhw. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol i greu ymddiriedaeth ac i wreiddio arferion da mewn datblygu prosiectau newydd.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gwneud y defnydd gorau o bob cyfrwng sydd ar gael, drwy barhau i weithio â NRW i sefydlu prosiectau ar dir Llywodraeth Cymru ac annog tiffeddianwyr cyhoeddus eraill i wneud yr un fath. Yr ydym yn disgwyl i CNC i ehangu ar ei Raglen Datblygu Ynni ac i arwain dwry esiampl i hybu datblygiadau Cymreig ar dir cyhoeddus.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr her o gyflwyno prosiectau adnewyddadwy yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, lle mai ond y safleoedd gorau, gydag adnoddau da a chysylltiad i'r grid neu brynwr trydan uniongyrchol a fyddai'n hyfyw.

Mae'n amlwg bod angen arloesi er mwyn darparu system garbon isel, gysylltiedig a chlyfar y dyfodol. Mae Cymru eisoes yn treialu nifer o ddulliau arloesol o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy bach a sut i'w hintegreiddio o fewn y gyfundrefn ynni. Mae prosiectau yng Nghymru hyd yma wedi tynnu i lawr £182,823,380 o gronfa arloesi Ofgem. Mae ein rhaglen [Byw'n Ddoeth](#) o brosiectau arddangos hefyd yn cyfrannu dealltwriaeth ac amgyffred ac rydym yn rhannu hyn wrth iddynt esblygu. Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth ar hyn o bryd, fel rhan o'r [Fenter Byw yn Glyfar](#), i brosiectau arloesi rhwng Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu a datblygiadau ynni perchnogaeth leol, i ddatblygu atebion grid a storio clyfar arloesol sy'n cefnogi rheolaeth weithredol o rwydweithiau.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i greu'r amgylchedd buddsoddi sefydlog sydd ei angen i ysgogi mwy o brosiectau cynhyrchu, er enghraifft y Tariffau Cyflenwi Trydan a'r Contractau Gwahaniaeth, ac i alluogi datblygu grid sy'n briodol i gyflawni ein dyfodol ynni carbon isel.

Gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Yr ydym wedi ai-ddrafftio Polisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y broses gynllunio'n rhoi pwysau priodol i fuddion ac effeithiau perchnogaeth leol a chydberchnogaeth o ddatblygiadau ynni newydd. Bydd datganid polisi yn darparu mwy o wybodaeth ar sut fydd cyflawni hyn.

Byddwn yn gweithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'r gweithgor i chwilio am atebion i'r heriau a godir gan yr ymatebwyr ac yn cefnogi dulliau cydberchnogaeth ar gyfer datblygiadau ynni mawr. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r Egwyddorion Arfer Da a ddefnyddir yn yr Alban ar gyfer Cydberchnogaeth gan ystyried a fyddai canllawiau o'r fath hefyd yn ddefnyddiol i Gymru.

Bwriadwn drefnu digwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth i swyddogion Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a chynnwys pobl gyda gwybodaeth uniongyrchol am gyberchnogaeth.

Byddwn yn adeiladu ar y porth partneriaeth a ddatblygwyd o dan y Gwasanaeth Ynni Lleol, ac ar waith cynllunio ynni rhanbarthol a lleol, i ddod â phartion gyda diddordeb mewn datblygu prosiectau cyberchnogaeth at ei gilydd.

Bydd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru'n rhoi cyngor a chymorth ar ddatblygu prosiectau cyberchnogaeth, gan gynnwys annog pobl i rannu arferion da.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r gweithgor i ystyried sut i ddatblygu cyberchnogaeth yn well, gan gynnwys dulliau posib fel 'nod siarter' i osod safonau.

Adran 5: Modelau perchnogaeth

Cliciwch [yma](#) i ddarllen Adran 5 o'r Cais am Dystiolaeth.

Cwestiwn 11: Rhowch dystiolaeth o ddatblygiadau a ddefnyddiodd fodelau perchnogaeth eraill nad ydynt wedi'u cynnwys uchod.

Dywedodd ymatebwyr wrthym am yr amrywiol fodelau y gellir eu defnyddio, yn ogystal â'r rhai a ddisgrifir yn y cais am dystiolaeth, fel model cydbartneriaeth a "perchnogi wrth fynd". Teimlai un ymatebwr mai'r model mwyaf dymunol fyddai model cymunedol 100% a fyddai'n cwrdd â'r canlyniadau a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn yr Alban, y model mwyaf poblogaidd yw cydfenter.

Mae [Cynllun Ynni a Menter Cymunedol Abertawe](#) yn enghraifft o fodel cydbartneriaeth. Mae'r prosiect wedi'i berchnogi ac yn cael ei redeg gan gymdeithas fudd gymunedol er mai'r awdurdod lleol a ddarparodd yr adeiladau ar gyfer y paneli solar PV. Mae cynrychiolydd o'r awdurdod lleol yn aelod o'r Bwrdd.

Mewn rhai rhannau o'r DU mae model 'perchnogi wrth fynd' wedi cael ei weithredu. Mae'r defnyddiwr ynni'n talu'r gosodwr am yr ynni a ddefnyddiwyd. Drwy'r taliadau, daw'r defnyddiwr ynni'n berchen ar y gosodiad ynni yn y pen draw. Opsiwn arall yw talu cyfandaliad nes ymlaen am y gosodiad ynni. Wrth i gyfran y person o'r berchnogaeth gynyddu, mae eu biliau ynni'n lleihau. Mae'r model hwn yn golygu nad oes angen cyfalaf sylweddol ar y dechrau i brynu'r gosodiad ynni'n llwyr. Mae hefyd yn gweithio i unigolion yn lle bod angen i bobl ddod at ei gilydd fel grŵp neu sefydlu endid cyfreithiol.

Rhestrodd un ymatebwr y gwahanol ddulliau a ddefnyddir yng ngwledydd yr UE. Yn yr Almaen mae gan brosiectau ynni cymunedol hawl i werthu'n uniongyrchol i drydydd partion. Yn Nenmarc, rhoddir blaenoriaeth i breswylwyr lleol wrth fuddsoddi mewn cynlluniau ynni cymunedol. Yn ôl y dystiolaeth yn Nenmarc pan fydd pobl yn teimlo eu bod yn berchen ar ynni, mae'n haws a mwy effeithiol gweithio gyda nhw i ddefnyddio llai.

Awgrymodd ymatebwr arall fod angen mwy o weithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector cymunedol. Gallai hyn fod drwy i'r sector cyhoeddus brynu ynni gan y sector cymunedol am bris penodedig, gan roi sicrwydd i'r prosiect cymunedol a helpu'r sector cyhoeddus i gyrraedd ei dargedau newid hinsawdd. Cyfeiriwyd at adroddiad UKERC 'What we know about local authority engagement in the UK energy systems' sy'n gwneud argymhellion ar rôl yr awdurdod lleol.

Cyfeiriwyd at y strwythurau cyfreithiol canlynol gan amrywiol ymatebwyr:

Dywedodd ymatebwyr mai'r **Gymdeithas Fudd Gymunedol** (CBS neu "Becom") yw'r strwythur mwyaf poblogaidd. Mae wedi'i ddylunio er budd i'r gymuned, i ddarparu gwasanaethau i bobl heblaw eu haelodau. Mae'r strwythur yn caniatáu i grwpiau cymunedol godi arian drwy gyfranddaliadau gan roi budd ariannol i'r buddsoddwyr drwy dalu llog ar eu swm cyfalaf o unrhyw warged gweithredol, gyda'r gweddill yn cael ei ddefnyddio er budd y gymuned. Gellir hefyd defnyddio "Becom"

ar y cyd ag elusen (cymdeithas fudd gymunedol elusennol) fel bod y "Becom" yn gallu rhoi arian i'r elusen i ddarparu buddion i'r gymuned. Mae "Becom" yn wahanol i gymdeithas gydweithredol o ran bod cymdeithas gydweithredol yn bodoli er budd ei haelodau sy'n defnyddio ei gwasanaethau, ond mae "Becom" yn gweithio er budd y gymuned ehangach.

Yn aml iawn defnyddir **Cwmni Cyfyngedig drwy Warant** lle nad yw'r cyllid wedi'i godi drwy gyfranddaliadau. Mae ganddo aelodau yn hytrach na chyfranddalwyr. Y prif reswm am y strwythur hwn yw gwarchod pobl sy'n rhedeg y cwmni rhag bod yn bersonol atebol am ddyledion y cwmni.

Mae strwythur Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) yn caniatáu i gymuned sefydlu busnes sy'n masnachu gyda phwrpas cymdeithasol neu sy'n cyflawni gweithgareddau er budd y gymuned. Mae cwmnïau CIC yn endidau cyfreithiol defnyddiol i ddal asedau lleol fel tir, gan sicrhau y defnyddir hwynt er budd y gymuned. Mae cwmnïau CIC yn cael eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (<https://www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-regulator-of-community-interest-companies>).

Dywedodd un ymatebwr ar adeg pan fo'n anodd creu budd ariannol, y bydd angen i gymunedau godi arian cyfalaf cost isel. Gallai hyn olygu bod cymunedau'n debygol o fabwysiadu'r model cronfa fudd gymunedol, fydd yn risg isel.

Cwestiwn 12: Rhowch dystiolaeth i ddangos y modelau mwyaf defnyddiol ar gyfer darparu buddion lleol a chydberchnogaeth.

Cynigiwyd amrywiol fodelau yn yr ymatebion. Mae'r modelau a gynigiwyd gyda'r dystiolaeth ategol eisoes wedi eu disgrifio yn y crynodeb o ymatebion i gwestiwn 11: modelau rhannu refeniw, cyd-fentrau, cronfeydd ymddiriedolaeth cymunedol a pherchnogaeth 100%. Roedd y dystiolaeth hefyd yn ystyried manteision ac anfanteision gwahanol fodelau.

Dyweddod un ymatebwr fod y model a ddefnyddir yn debygol o ddibynnu ar y prosiect a faint o werth ychwanegol y gall partner cymunedol ei gyfrannu i'r bartneriaeth. Er enghraifft, gellid defnyddio model cyd-fenter ond efallai na fyddai grŵp cymunedol yn gallu codi'r arian i dalu am eu siâr o brosiect mawr iawn.

Credai ymatebwyr fod y math o fodel yn effeithio ar yr hawliau a'r pwerau sydd gan gymuned, sydd angen amser ac adnoddau. Gyda rhai modelau, gall y gymuned fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Byddai model rhannu refeniw'n cyfyngu ar ran y gymuned, ond gallai hynny fod yn well gan gymuned heb lawer o adnoddau.

Dyweddod rai ymatebwyr y gall y model rhannu refeniw arwain at incwm gwarantedig yn y flwyddyn gynhyrchu gyntaf. Fodd bynnag, nododd un ymatebwr fod yna bosibilrwydd y gallai cost y cyllid, ynghyd â chostau datblygu a chynnal a chadw, ddefnyddio'r refeniw a fyddai fel arall yn mynd i'r gronfa buddion lleol i gyd.

Cafodd un darn o dystiolaeth ei gyflwyno bod prosiect wedi gorfod defnyddio model rhannu refeniw i ateb pryderon y datblygwr bod sefydliad partner yn rhan o ddatblygiad ac yn cynyddu'r risg drwy ddylanwadu ar benderfyniadau'n ymwneud â gweithrediad y prosiect.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r dystiolaeth o'r gwahanol fodelau wedi bod yn ddefnyddiol ac yn dangos yn glir bod angen ystod o ddulliau i gyd-fynd â gwahanol amgylchiadau. Rhannwn bryderon yr ymatebwyr bod angen cryn dipyn o adnoddau ac arbenigedd ar berchnogaeth leol iawn ac nad yw pob cymuned yn gallu ymrwmo nac yn barod i wneud hyn. At ei gilydd, ymddengys yn beth doeth cynnwys cronfa fudd gymunedol fel opsiwn yn yr ystod o fuddion a gynigir i gymunedau, er na fyddai hyn ar ei ben ei hun yn cael ei ystyried i fod yn brosiect cydberchnogaeth.

Gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu canllawiau ar fodelau a strwythurau ar gyfer datblygiadau ynni. Byddwn yn gweithio gyda'r gweithgor i ehangu ar ystod y canllawiau i gynnwys modelau cydberchnogaeth.

Adran 6: Cyllid

Cliciwch [yma](#) i ddarllen Adran 6 o'r Cais am Dystiolaeth.

Cwestiwn 13: Rhowch dystiolaeth o'r ffynonellau a'r mathau o gyllid a ddefnyddir i ddatblygu prosiectau ynni yng Nghymru. Byddai'n ddefnyddiol derbyn tystiolaeth o blaid neu yn erbyn bod Llywodraeth Cymru'n parhau i gynnig cyllid.

Unwaith eto roedd ffocws y rhan fwyaf o'r ymatebion ar ynni cymunedol a lleol ac nid ar y cynlluniau masnachol sy'n cyfrif am y rhelyw o ddatblygu yng Nghymru. Rhestrodd lawer o'r ymatebwyr ffrydiau cyllido a ddefnyddiwyd ganddynt eu hunain neu y gwyddent amdanynt. Y ddwy ffrwd gyllido y cyfeiriwyd atynt amlaf yng nghydestun cefnogi cynlluniau ynni lleol oedd Cronfa Benthyciadau Ynni Lleol Llywodraeth Cymru (sy'n cael ei rhedeg gan Fanc Datblygu Cymru) a Banc Cymunedol Robert Owen. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr fod gan y ddwy ffrwd rôl greiddiol i'w chwarae mewn darparu cymorth allweddol yn y cam cyn-datblygu, er enghraifft gyda chyllido gwaith fel astudiaethau ymarferoldeb.

Fodd bynnag, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gostwng y gyfradd llog a godir ar fenthyciadau cyfalaf o'r gyfradd 7% bresennol ac y dylai Llywodraeth y DU adfer cymhellion treth ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol.

Mae rhai ymatebwyr wedi awgrymu, yn dilyn y cyhoeddiadau diweddar ar dargedau ar gyfer perchnogaeth leol o ynni adnewyddadwy, bod angen darparu mwy o gyllid cyn-datblygu, er nodi'n glir eisoes bod mwy o'r math hwn o gyllid ar gael yng Nghymru nag yn Lloegr.

Awgrymodd un ymatebwr, ar y sail ei bod yn cymryd £1m i ddatblygu MW o bŵer, y byddai angen buddsoddiad o tua £1bn i gwrdd â'r targed ynni adnewyddadwy perchnogaeth leol o 1GW. Ar yr un pryd, mae gan ddinasyddion Cymru tua £20bn yn eu cyfrifon ISA (ar sail bod tua 1m o gyfrifon ISA gan breswylwyr Cymru a phob un yn dal tua £20k ar gyfartaledd). Awgrymwyd bod hyn yn gyfle da iawn i gyfeirio cyfran o arian ISA pobl Cymru at brosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Mae nifer o'r ymatebwyr wedi nodi bod potensial i ddefnyddio mynediad Awdurdodau Lleol at fenthyciadau cost isel i gefnogi ynni adnewyddadwy cymunedol. Credai ymatebwyr hefyd y dylai Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, fel y mae Cronfa Bensiwn Manceinion Fwyaf yn ei wneud.

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod angen i Gymru ecsbloetio mathau arbenigol o gyllid, gan gynnwys cyllid mesanîn, i hybu buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy. Cyfuniad o gyllid ecwiti a dyled yw mesanîn sy'n rhoi hawl i'r benthycwr drosi'r benthyciad yn fuddiant ecwiti neu berchnogaeth yn y cwmni os nad yw'r benthyciad yn cael ei dalu'n ôl, ar ôl talu cwmnïau cyfalaf menter ac uwch-fenthycwyr eraill.

Cyfeiriodd ymatebwyr at y ffynonellau canlynol o fenthyciadau cyfalaf sydd ar gael yn benodol ar gyfer cynlluniau adnewyddadwy cymunedol:

Big Society Capital
Triodos
Robert Owen Community Banking Fund Ltd
Llywodraeth Cymru (Banc Datblygu Cymru)
Charity Bank
Pure Leapfrog
CO2Sense
Thrive Renewables

Dyma rai pwyntiau allweddol eraill a godwyd gan ymatebwyr:

- bod angen sianeli cyllido eraill ac arloesol i gefnogi ynni lleol;
- bod angen cyfnodau ad-dalu hirach ar gyfer asedau hirdymor;
- bod taer angen cyllid cyn-ddatblygu i sicrhau bod prosiectau'n ddi-risg cyn eu trosglwyddo i berchnogaeth y gymuned; a
- bod angen ystyried cael gafael ar ffrydiau cyllido rhyngwladol fel Banc y Byd.

Awgrymodd un ymatebwr fod cymunedau yn yr Alban yn ystyried gofyn i awdurdodau lleol am gyfalaf cost isel. Gall awdurdodau lleol fenthg gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Gallai rhoi benthg yr arian hwn i fudiadau cymunedol am gyfradd gystadleuol o'i gymharu â chyllid traddodiadol roi incwm hirdymor i'r awdurdod.

Mathau o gyllid

Cyfranddaliadau Cymunedol

Dyweddodd ymatebwyr wrthym y codwyd dros £6 miliwn o werthu cyfranddaliadau yng Nghymru dros y 3-4 blynedd diwethaf. Codwyd £2.5m gan ddim ond un cynllun. Mae cyfranddaliadau cymunedol yn gyfrwng i bontio'r bwlch rhwng diffyg arian cyfalaf a pherchnogaeth o fenter gymdeithasol. Awgrymodd un ymatebwr fod defnyddio 'clo asedau' wrth werthu cyfranddaliadau'n cael ei ystyried yn bwysig. Oherwydd nad yw'r farchnad cyfranddaliadau cymunedol yn cael ei rheoleiddio, awgrymwyd hefyd y dylai cynlluniau fabwysiadu'r nod Safon Cyfranddaliadau Cymunedol a hyrwyddir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru fel arfer da.

Cyllido torfol

Mae cyfle bellach i ddefnyddio cyllid torfol ar gyfer bondiau ynni cymunedol fel rhan o gynllun Cyfrif Cynilo Unigol di-dreth. Mae cynlluniau cyllido torfol yn apelio mwy ers colli'r Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (EIS) oedd yn gwneud cyfranddaliadau cymunedol yn llai deniadol i fuddsoddwyr. Mae llwyfannau sy'n darparu cyllid torfol ynni adnewyddadwy drwy ISA Cyllid Arloesol yn cynnwys:

Mongoose crowd
Triodos Crowdfunding
Ethex
Abundance Investment

Awgrymwyd hefyd fod y gost o ddarparu cyllid torfol drwy ddyled yn isel ac y gallai'r isafswm buddsoddiad felly fod cyn lleied â £5, a bod angen lefel fuddsoddi uwch ar gyfer cyfranddaliadau. Dangosodd ymchwil fod buddsoddwyr cyffredin yn fwy cyffyrddus gyda rhoi benthyg arian na'n prynu cyfranddaliadau mewn cwmni. Awgrymodd un ymatebwr fod cyllid torfol yn gallu darparu 100% o'r cyllid i ddatblygu prosiectau bach ond bod modd ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau mwy i ddarparu haen o gyfalaf o fewn y strwythur. O'i ddarparu fel cyllid mesanîn, gall leihau cost uwch-fenthyciad gan helpu i leihau'r Gost Gyfalaf Gyfartalog Wedi'i Phwysoli. Fodd bynnag, mae'n cael ei weld fel ffynhonnell gyfalaf gymharol newydd nad yw'r sector datblygu'n ei ddeall yn llwyr.

Pris gwarantedig am ynni cymunedol

Mae'r opsiynau presennol ar gyfer symud at ffynonellau mwy lleol yn cynnwys cytundeb prynu pŵer hyblyg, [cytundebau prynu pŵer corfforaethol](#), contractau 'llawes' neu wifrau preifat.

Ar hyn o bryd [Cynllun Menter ac Ynni Cymunedol Abertawe](#) yw'r unig gynllun ynni cymunedol sydd â chytundeb prynu pŵer (PPA) gyda chorff cyhoeddus. Roedd y cytundeb hwn yn hanfodol ar gyfer darparu'r prosiect.

Cyllid cost isel mwy hyblyg

Codwyd nifer o bwyntiau'n ymwneud â chyllido prosiectau lleol neu berchnogaeth leol. Ystyriwyd y rhain o dan adran 6.

Cyfeiriodd un mudiad trydydd sector at [adroddiad](#) gan Community Reinvest yn nodi bod cynghorau Cymru'n buddsoddi £739 miliwn o'u cronfeydd pensiwn yn benodol mewn cwmnïau tanwydd ffosil, swm sy'n cyfateb i 6.6% o'u holl fuddsoddiadau a mwy nag yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r buddsoddiad yma'n digwydd er y risgiau ariannol, cymdeithasol, technolegol, amgylcheddol a rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau o'r fath. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i ystyried goblygiadau hirdymor eu penderfyniadau.

Awgrymodd yr ymatebwr y dylid cefnogi'r argymhellion yn [adroddiad ariannu 'Adfywio Cymru' gan y Sefydliad Materion Cymreig \(IWA\)](#).

Mae llawer o fudiadau Ynni Cymunedol, gan gynnwys Awel Coop, Carmarthenshire Energy ac YnNi Teg wedi elwa o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a weinyddir gan Fanc Datblygu Cymru. Dywedodd ymatebwyr fod angen i lefel y cyllid sydd ar gael gyd-fynd ag uchelgais Llywodraeth Cymru i ddenu cyllid ychwanegol.

Yn ogystal â chyfranddaliadau cymunedol, mae bondiau ynni cymunedol a chyfrifon [ISA](#) yn cael eu datblygu. Gall codi arian drwy werthu cyfranddaliadau cymunedol sicrhau bod mwy o'r taliadau budd yn aros yng Nghymru a'r DU.

Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at bwysigrwydd y cymorth a roddir i'r sector ynni adnewyddadwy drwy raglenni fel Ynni'r Fro a Gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i'r sector ynni cymunedol yng ngham cyn-datblygu / cam ymarferoldeb cynllun. Awgrymodd un ymatebwr y dylai Llywodraeth Cymru danysgrifennu gwarantau yn erbyn colledion buddsoddi. Awgrymodd ymatebwr arall, hyd nes y daw prosiectau newydd yn hyfyw ar sail prisiau trydan cyfanwerthu'n unig, fod cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru'n amhrisiadwy os yw prosiectau i daro'r cydbwysedd gorau rhwng dyled ac ecwiti.

Awgrymodd un ymatebwr fod gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae mewn ysgogi'r sector drwy greu cronfa o gyllid pontio sydd ar gael ar y diwrnod y mae angen y cyllid cyfalaf, gyda'r cyfalaf yna'n cael ei ail-gyllido drwy ffynonellau cyllido eraill fel cyllido torfol. Awgrymodd yr ymatebwr na fyddai gormod o gysylltiad i Lywodraeth Cymru a byddai modd ailgylchu arian parod yn gyflym, ond byddai gan y dinesydd fwy o gyfleoedd i dderbyn cyllid. Awgrym arall oedd bod y model cyllido presennol gan Lywodraeth Cymru yn gwyrddo'i'r farchnad ac y dylai'n hytrach weithio gydag eraill i ddatblygu model 'cyllid cymdeithasol'.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd y dystiolaeth yn canolbwyntio ar ddatblygiadau ynni lleol ac yn enwedig y sector ynni cymunedol. Ni dderbyniwyd llawer o dystiolaeth o ba ffynonellau cyllido sydd ar gael i ddatblygiadau ynni masnachol a mawr. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw rwystrau i gyllido eu nodi.

Roedd y dystiolaeth yn ddefnyddiol i ddangos amrywiaeth y ffynonellau cyllid cyfalaf hwyr gan ddangos bod yna farchnad weithredol mewn cyllid masnachol a dim rheswm clir i'r Llywodraeth ymyrryd. Cyfeiriwyd at ddiffyg cyllid yn y cam datblygu cynnar a'r cam adeiladu i'r sector cymunedol.

Roedd barn ymatebwyr am y rôl graidd y mae cyllid Llywodraeth Cymru'n ei chwarae yn y cam datblygu cynnar yn ddefnyddiol. Mae'r cam cyn-datblygu / adeiladu / ymarferoldeb hwn wedi'i gadarnhau fel bwch mewn cyllid oherwydd y risg uchel sy'n gysylltiedig â fo. Ymddengys hefyd mai'r cam datblygu cynnar hwn yw'r amser pryd y mae gwir werth prosiect yn cronni. Mae hyn yn cadarnhau bod angen i'r cymorth barhau er mwyn darparu a chadw mwy o'r gwerth a ddaw o gynhyrchu cymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cynnwys [adroddiad ariannu 'Adfywio Cymru' yr IWA](https://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/publications/iwa-report-response/?skip=1&lang=cy) ac wedi cyhoeddi ei hymateb ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/publications/iwa-report-response/?skip=1&lang=cy>

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi chwarae'r rôl sydd wedi'i nodi gan un rhanddeiliad mewn darparu cyfalaf yn y cam adeiladu drwy fenthyciad pontio, i'w ddisodli gan gyllid cyfranddaliadau. Rydym hefyd wedi tanysgrifennu benthyciadau gan y Gronfa Benthyciadau Ynni Lleol i gyd-fynd â chyfranddaliadau, er mwyn

sicrhau bod prosiectau sy'n rhoi budd uniongyrchol i'r gymuned yn llwyddo i gael eu hadeiladu ac yn enwedig lle'r oedd dyddiadau cau ar gyfer cymhellion Llywodraeth y DU yn nesáu.

Disgrifiwyd nifer o wahanol ddulliau cyllido yn yr adran hon a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddeall yn well beth sydd efallai angen ei wneud i ddatgloi'r cyllid sydd ar gael yng Nghymru ar gyfer datblygiadau lleol boed yn fawr neu'n fach.

Byddwn hefyd yn ystyried sut i leihau costau cyllid. Mae Cronfa Benthyciadau Ynni Lleol Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei rhedeg gan Fanc Datblygu Cymru, yn cynnig benthyciadau ar gyfraddau masnachol er mwyn cydymffurfio â gofynion Cymorth y Wladwriaeth. Byddem yn hoffi'r opsiwn i gynnig benthyciadau ar gyfradd llog is neu sero er mwyn sicrhau bod y buddion o ddatblygiadau newydd yn aros yn lleol yn yr amgylchedd ariannol anodd sy'n bodoli heddiw. Rydym yn ystyried sut y byddai modd gwneud hyn heb wneud pethau'n fwy cymhleth i'r sefydliad sy'n derbyn y cyllid.

Gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Drwy Wasanaeth Ynni newydd Llywodraeth Cymru byddwn yn parhau i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy.

Byddwn yn ystyried gostwng y cyfraddau llog a godir ar fenthyciadau cyfalaf gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ac a reolir gan Fanc Datblygu Cymru.

Cwestiwn 14. Rhowch dystiolaeth o effaith modelau cydberchnogaeth ar gael mynediad at gyllid, neu ar gost cyllid.

Roedd ymatebwyr yn glir ers i'r Tariffau Cyflenwi Trydan a'r Rhwymedigaeth Adnewyddadwy ddechrau talu llai, bod yn awr angen arbedion maint i wneud prosiectau newydd yn hyfyw gyda'r opsiynau cyllido presennol sydd ar gael. Awgrymodd un ymatebwr oherwydd bod angen prosiect mwy a bod hynny'n fwy na'r hyn y gall mudiad bach fel cymuned ar ei phen ei hun ei ddarparu'n aml, bod cydberchnogaeth yn debygol o ddod yn ffordd fwyfwy hyfyw o ddarparu prosiect.

Awgrymwyd bod gan y model 'rhannu refeniw' rai manteision. Er nad yw'r dull hwn yn rhoi unrhyw sicrwydd ar yr ased i fenthycwr, a allai fod yn broblem i rai benthycwyr, gall dalu allan canran o'r refeniw o'r flwyddyn gyntaf, gan helpu i sicrhau bod ad-daliadau a thaliadau llog yn digwydd.

Awgrymodd un ymatebwr y gallai fod yn haws i grwpiau cymunedol gael gafael ar gyllid os oes ganddynt ddatblygwr mawr neu awdurdod lleol fel partner, a allai roi mynediad at fenthycia darbus a hefyd at arbenigedd ac adnoddau ychwanegol. Gallai awdurdodau lleol warantu mentrau cymunedol sydd angen mynediad at fenthycia masnachol ond sydd heb hanes benthycia blaenorol. Mae enghreifftiau o gymunedau ac awdurdodau lleol yn cyd-fuddsoddi: er enghraifft fferm solar gymunedol Swindon. Partneriaeth oedd y prosiect hwn rhwng Public Power Solutions (wedi'i berchnogi'n llwyr gan Gyngor Swindon) ac Abundance a gyd-gyllidodd y prosiect gyda chymysgedd o gyllid cyhoeddus a buddsoddiad cymunedol.

Awgrymodd ymatebwr arall fod pethau'n ansicr i ddatblygwyr masnachol ar hyn o bryd oherwydd y newid yn y farchnad gymorthdaliadau. Y disgwyl wrth symud ymlaen yw y bydd cynnydd mewn datblygiadau mwy, ac o brofiad yr Alban, y cwmnïau mwy sy'n symud ymlaen gyda'r datblygiadau hyn. Felly nid yw cost cyllid i'r datblygwr masnachol yn rhwystr ond mae angen darparu ar gyfer sefydliadau o Gymru sydd eisiau dewis model cydberchnogaeth. Dylai'r darpariaethau hyn gynnwys mynediad at gymorth cyfreithiol, cymorth ariannol a chyllid fforddiadwy.

Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod cydberchnogaeth a pherchnogaeth gymunedol yn manteisio ar gyllid gan ystod o wahanol fuddsoddwyr unigol, gan roi hyblygrwydd o ran lleoliad a maint y cyllid. Teimlai un ymatebwr fod hyn yn golygu ei bod yn gymharol hawdd codi arian ar gyfer buddsoddiad cyfalaf. Mae'r model KfW yn yr Almaen (banc datblygu y mae'r Llywodraeth Ffederal yn berchen arno) yn cynnig opsiynau cyllido wedi'u darparu drwy rwydwaith o fanciau lleol gan ddarparu cyllid hygyrch, hyblyg, rhad wedi'i dargedu ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy, gwres ac inswleiddio i unigolion, mentrau cymdeithasol a busnesau bach. Awgrymodd yr ymatebwr y gallai Cymru gynnig y model hwn drwy swyddfeydd post neu undebau credyd.

Awgrymodd un ymatebwr, drwy annog modelau cydberchnogaeth mewn ffordd hyblyg a heb rwystro datblygwyr rhag datblygu prosiectau mewn achosion lle nad yw modelau cydberchnogaeth yn hyfyw, y byddai Llywodraeth Cymru'n datgloi'r holl ffynonellau buddsoddi posib. Byddai hyn yn debygol o leihau cost cyllid cyfalaf drwy gynyddu faint o gyfalaf a fyddai ar gael i brosiectau ynni adnewyddadwy. Yn ei dro byddai hyn yn helpu i ddarparu'r ynni carbon isel cost isaf i'r system.

Mae gwahanol fathau o grantiau neu fenthyciadau ar gael ar gyfer prosiectau adnewyddadwy, a allai weithio i un math o sefydliad neu gwmni masnachol neu gymuned. Yn achos prosiectau gyda sefydliadau o wahanol sectorau, gallent gael gafael ar gyllid o wahanol ffynonellau a goresgyn y rhwystr cyllid cyfalaf.

Yn olaf, rhybuddiodd un ymatebwr yn erbyn y model cydberchnogaeth. Awgrymodd fod cydberchnogaeth yn gwneud cyllido neu werthu prosiect yn fwy cymhleth oherwydd y cytundebau ychwanegol sydd angen eu negodi gyda banc. Nid yw effeithiau cydberchnogaeth ar drefniadau cyllido prosiect di-gymhorthdal wedi eu profi eto, ond os yw banciau'n dewis negodi'n gryf ar delerau, gallai'r gost ychwanegol fod yn ormod o faich ar brosiectau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r ymatebion yn creu darlun cymysg o effeithiau cydberchnogaeth ar gyllido prosiectau. Nid oedd digon o dystiolaeth o'r datblygiadau sydd eisoes yn bodoli ac mae hyn, o'i gyfuno â diffyg llwybrau cadarn i'r farchnad, yn creu cryn ansicrwydd. Gallai'r potensial i ddenu cyllid cam datblygu cynnar o wahanol ffynonellau gael ei wrthweithio gan foddelau llywodraethu mwy cymhleth ac atal y banciau masnachol.

Mae angen mwy o waith i adnabod prosiectau cryf a ffynonellau cyllid mwy hirdymor a chost is er mwyn cynhyrchu lefel sylweddol o brosiectau cydberchnogaeth newydd.

Mae pensiynau sector cyhoeddus wedi eu hadnabod fel ffynhonnell gyfalaf bosib yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chronfeydd pensiwn y sector cyhoeddus i hyrwyddo mwy o fuddsoddi hirdymor, cyfleoedd carbon isel a symud i ffwrdd o fuddsoddi traddodiadol yn y sector tanwyddau ffosil. Fodd bynnag, mae risgiau'n gysylltiedig â datblygu prosiectau cynhyrchu newydd mewn byd di-gymhorthdal. Prif rôl cronfeydd pensiwn y sector cyhoeddus yw darparu pensiynau i weithwyr y sector cyhoeddus. Gallai ffynonellau cyllid eraill fod yn well i ddarparu cyllid cyfalaf cychwynol ar gyfer datblygiad, gyda chronfeydd pensiwn yn cynnig opsiynau ail-gyllido unwaith y byddai lefel y budd ariannol yn gliriach.

Gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru byddwn:

- yn darparu cymorth i sefydliadau cyhoeddus a chymunedol i ddatblygu cyfleoedd cydberchnogaeth, gan gynnwys darparu cyngor cyfreithiol a chyllid hygyrch lle bo angen;
- yn annog Awdurdodau Lleol i ystyried defnyddio benthyca darbodus i'w ailfuddsoddi mewn cyfleoedd ynni adnewyddadwy cydberchnogaeth, gan weithio mewn partneriaeth â chymunedau;
- yn parhau i ystyried cyfleoedd i ddenu buddsoddiad cyfalaf ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Adran 7: Rôl dulliau buddsoddi a Chwmni Ynni

Cliciwch [yma](#) i ddarllen Adran 7 o'r Cais am Dystiolaeth.

Cwestiwn 15: Rhowch dystiolaeth o blaid neu yn erbyn rhoi rôl i gwmni ynni dielw i helpu Cymru i gyrraedd targedau perchnogaeth leol.

Roedd y rhan fwyaf wnaeth ateb y cwestiwn hwn yn cynrychioli sefydliadau yn y sector ynni cymunedol.

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr yn glir eu bod o blaid, mewn egwyddor, cael cwmni ynni di-wneud-elw i Gymru. Dywedodd un ymatebwr yn draddodiadol bod mantais gyda chyfranddaliadau lleol a lwyddodd i godi arian ar gyfer prosiect lleol gyda pharamedrau wedi eu diffinio'n glir. Fodd bynnag roedd y farchnad ariannol wedi newid gan gynnwys yr IFISA gan Abundance a Triodos sy'n defnyddio'r opsiwn o gynilion di-dreth. Teimlai rai y gallai fod yn fanteisiol cael cynllun tebyg ar gyfer Cymru a fyddai'n denu cyllid i Grymu ac i brosiectau yng Nghymru gan gadw'r buddion ariannol yng Nghymru'n hytrach na'u bod yn diferu allan i Abundance neu i Triodos. Gallai Banc Datblygu Cymru gyflawni'r rôl hon. Gallai rhan o'r cynllun gynnwys ail-gyllido rhai o'r prosiectau cymunedol er mwyn ehangu ymhellach ar y buddion ariannol a ddarperir gan fudiadau cymunedol.

Awgrymodd ymatebwr arall mai Llywodraeth Cymru a ddylai ddisgrifio'r rôl y byddai'r cwmni ynni hwn yn ei chwarae gyda chwrdd â thargedau perchnogaeth leol. Gallai'r cwmni ynni chwarae rôl gadarnhaol pe bai'n rhoi cyfle i ddatblygwyr gwrdd â gofynion perchnogaeth leol drwy sicrhau buddsoddiad ar gyfer prosiectau priodol, neu pe bai'r cwmni'n darparu mynediad at gyllid i gymunedau i'w fuddsoddi mewn prosiectau priodol (mewn ffordd debyg i'r Gronfa Buddsoddi mewn Ynni Adnewyddadwy yn yr Alban). Fodd bynnag, pe bai perchnogaeth leol yn orfodol i bob prosiect ynni adnewyddadwy newydd, yna mewn achosion lle na allai'r gymuned leol godi, neu os na fyddai'n fodlon mentro'r cyfalaf angenrheidiol ar gyfer prosiect o'r fath, gallai datblygwyr gael eu gorfodi i wneud y cwmni ynni'n rhannog yn eu prosiect er mwyn ei ddatblygu.

Yn adroddiad Strategaeth Ynni Gogledd Lloegr, roedd IPPR yn ystyried mater tebyg o bersbectif gogledd Lloegr, oedd hefyd unwaith yn gartref i asedau ynni sylweddol. Daeth Tasglu Ynni Gogledd Lloegr i'r casgliad fod angen corff strategol i oruchwylio a chydgysylltu, gan roi'r enw 'Energy for the North' arno. Cynigiwyd y byddai'r corff yn goruchwylio'r gwaith o fonitro cyllideb garbon y gogledd, a mesurau ar gyfer y gogledd i gwrdd â hynny; gan gynnwys gwaith ar sgiliau, arloesi (drwy 'Ysgogydd' Ynni Gogledd Lloegr) a datblygu prosiectau (drwy fframwaith cynhyrchu ynni).

Awgrymodd un ymatebwr y byddai'r dull hwn yn awgrymu gwahanol fath o endid ynni, nid un o reidrwydd yn ymwneud â chyflenwi ond â throsglwyddo ynni i Gymru ac er mantais i Gymru. Gyda Chymru eisoes yn datblygu cyllideb garbon, mae gennym efallai fframwaith cliriach ar gyfer pa weithredu sy'n angenrheidiol, felly'r dasg ar gyfer 'Ynni i Gymru' fyddai goruchwylio, cydgysylltu a chefnogi ystod eang o fesurau, nid lleiaf yr holl rai a allai gefnogi cynhyrchu ynni lleol a chymunedol.

Awgrymodd un ymatebwr fod angen creu corff canolog i gefnogi cymunedau lleol i reoli eu taliadau buddion cymunedol a gwneud y mwyaf o'r taliadau difidend a'r budd ariannol o gydberchnogaeth. Credai'r ymatebwr fod y budd ariannol yn cael ei fuddsoddi'n dameidiog ar hyn o bryd a'r gwerth yn cael ei golli.

Dywedodd ymatebwr arall fod rhwydweithiau dosbarthu gwres wedi hen sefydlu yn Nenmarc a gwres yn cael ei werthu'n ddi-wneud-elw. Mae tryloywder gyda phrisiau gwres ac mae datblygiad rhwydweithiau dosbarthu gwres wedi'i alluogi gan fframwaith cynllunio cryf. Awdurdodau lleol a chymdeithasau dosbarthu gwres cydweithredol sy'n berchen ar y rhan fwyaf o rwydweithiau dosbarthu gwres (*Chittum ac Ostergaard 2014*¹; *Bush 2016*²). Yn y DU, mae systemau dosbarthu gwres wedi ehangu'n llwyddiannus o dan fodel perchnogaeth leol, ar sail di-wneud-elw (enghraifft allweddol o'r olaf yw Aberdeen Heat and Power Ltd a sefydlwyd gan Gyngor Dinas Aberdeen). Gallai hyn fod yn rôl i gwmni ynni o Gymru.

Gallai cwmni ynni cenedlaethol di-wneud-elw gynorthwyo datblygiad prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru, gyda materion cyllid, technegol a busnes. Yn gyntaf, gallai gwasgaru risg buddsoddi ar draws portffolio nid yn unig warchod y buddsoddwyr ond hefyd, a hynny drwy leihau'r risg, godi cyllid ar gyfraddau llog is nag y gallai grwpiau ynni cymunedol un prosiect gael mynediad atynt ([DECC 2014](#)). Yn ei dro gallai hyn leihau cost ariannol prosiect gan efallai ddarparu mwy o fuddion lleol neu hyd yn oed ganiatáu datblygu prosiect na fyddai fel arall wedi bod yn hyfyw. Mae sefydliad [Energy4All](#) ac [Energy Prospects](#), cymdeithas gydweithredol sy'n cyllido cymdeithasau ynni cydweithredol eraill, yn arwydd bod y sector ynni cymunedol yn chwilio am atebion i'r union broblem hon.

Yn ail, fel y mae'r ymatebwr yn ei ddadlau, gallai cwmni o'r fath gryfhau capasiti grwpiau ynni cymunedol mewn amrywiol feysydd technegol. Yn enwedig wrth sefydlu, rhaid i grwpiau ynni cymunedol ddringo mynydd dysgu go serth yn aml, ac wrth ddelio ag actorion ynni masnachol, ymdopi hefyd â diffyg cydbwysedd rhwng adnoddau ariannol a thechnegol. Gallai ehangu capasiti grwpiau ynni cymunedol hefyd hwyluso gweithio mewn partneriaeth a chynorthwyo actorion ynni masnachol sy'n chwilio am bartneriaethau cymunedol (*Goedkoop a Devine Wright 2016*³, *Harnmeijer 2015*⁴).

¹ Chittum, A., ac Østergaard, P. (2014) How Danish communal heat planning empowers municipalities and benefits individual consumers. *Energy Policy* 74 (2014): 465-474;

² Bush, R., Hawkey, D., a Webb, J. (2016) Regulatory options for district heating in Scotland Report to Scottish Government. Caeredin: Prifysgol Caeredin. Wedi'i ad-alw o <https://heatandthecity.org.uk/resource/regulatory-options-for-district-heating-in-scotland/>.

³ Goedkoop, F., a Devine-Wright, P. (2016) Partnership or placation? the role of trust and justice in the shared ownership of renewable energy projects. *Energy Research and Social Science* 17: 135-146.

⁴ Harnmeijer, J., Harnmeijer, A., Bhopal, V., Robinson, S., Phimster, E., Roberts, D., a Msika, J. (2015) *The Comparative Costs of Community and Commercial Renewable Energy Projects in Scotland*, Caeredin: ClimateXChange.

Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif o'r ymatebwyr o blaid creu corff o'r fath gydag un yn awgrymu bod gan gwmnïau ynni di-wneud-elw hanes cymysg hyd yma, gyda Bristol Energy yn rhoi baich ariannol sylweddol ar yr awdurdod lleol a'i gymunedau. O ganlyniad dylai Llywodraeth Cymru fod yn ofalus am ymuno â'r sector hwn. Ar ben hynny mae myrdd o gwmnïau ynni'n gweithredu yn y DU ac yn chwilio am atebion i wahanol heriau gyda chyflenwi ynni. Nid oes lle i ddisgwyl y byddai Llywodraeth Cymru'n gallu darparu gwasanaethau o'r fath yn fwy effeithlon na'r sector preifat. Yn wir, teimlai'r ymatebwr pe bai Llywodraeth Cymru'n cefnogi cwmni ynni y gallai hynny fygu cystadlu ac arloesi oherwydd mae'n debyg y byddai gan gwmni wedi'i gefnogi gan lywodraeth fynediad at gyllid rhatach a mwy o gefnogaeth oherwydd y cymorth gan y llywodraeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r ymatebion yn cadarnhau gwaith blaenorol gan Lywodraeth Cymru y llynedd i rolau posib ar gyfer [Cwmni Ynni i Gymru](#). Cytunwn â'r ymatebwr a dynnodd sylw at yr heriau a fyddai'n wynebu'r Llywodraeth gyda sefydlu cwmni cyflenwi ynni.

Roedd y camau gweithredu posib ar gyfer cwmni ynni y cyfeiriodd ymatebwyr eraill amdanynt yn ddefnyddiol. Mae cyflenwi gwres yn cael ei reoleiddio llai na chyflenwi trydan ac nid yw'n farchnad gystadleuol iawn. Oherwydd bod nifer o awdurdodau lleol yn edrych ar brosiectau gwres posib, mewn theori gellid datblygu sefydliad yng Nghymru i redeg y cynlluniau hyn.

Ni chytunwn â'r awgrym bod angen corff canolog i reoli taliadau budd cymunedol oherwydd lle'r bobl leol yw penderfynu ar y taliadau hyn. Fodd bynnag cefnogwn yr arferion da gan rai datblygwr sy'n cynorthwyo'r cymunedau hyn i ystyried y rôl strategol ac efallai trawsnewidiol y gallai'r symiau hyn, sy'n arian mawr yn aml, ei chwarae yn y rhanbarth.

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr at fwlch i bob golwg yn y cydgysylltu lleol a rhanbarthol a bod hyn yn angenrheidiol i sicrhau gwerth lleol gorau wrth bontio at ddatgarboneiddio. Rydym yn gweithio drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ganfod sut y gallwn gefnogi arweinwyr lleol a rhanbarthol i gynllunio'n weithredol ar gyfer, ac i gydgysylltu'r pontio hwn. Yr ydym wedi ymrwymo'n ddiweddar i gefnogi cynllunio ynni rhanbarthol a allai gynyddu cydgysylltiad.

Cwestiwn 16: Rhowch dystiolaeth o'r angen am ddulliau buddsoddi fel bod mwy o gyfalaf ar gael yng Nghymru i'w fuddsoddi mewn prosiectau ynni.

Ar y cyfan roedd y rhai a atebodd y cwestiwn hwn o blaid creu dull newydd o fuddsoddi. Cyfeiriodd un ymatebwr at rywbeth tebyg oedd yn bodoli yn yr Almaen. Cyfeiriodd at y ffaith fod banc KfW yn yr Almaen wedi chwarae rhan eithriadol bwysig yn nhwf ynni adnewyddadwy lleol / cydweithredol. Oherwydd statws credyd cryf banc KfW, gall gael benthyg arian ar gyfraddau isel iawn. Mae'r cyllid yma wedyn yn cael ei ddsbarthu drwy rwydweithiau o fanciau lleol a rhanbarthol sy'n awyddus i gefnogi prosiectau lleol, yn rhannol oherwydd eu heffaith gadarnhaol ar economïau lleol. Mae'r sefydliadau ariannol cyfryngol hyn yn aml yn darparu cyllid datblygu ochr yn ochr â chyllid cyfalaf. Er nad oes gan Gymru rwydwaith tebyg o fanciau lleol a rhanbarthol, gellid addasu'r model drwy gyfuno benthyca cost isel â chyllid datblygu ac yn anad dim drwy dracio, yn defnyddio metrigau, effaith economaidd-gymdeithasol prosiectau yng Nghymru fel ffordd o fesur gwerth am arian.

Tynnodd ymatebwr arall sylw at enghraifft arall o'r tu allan i Gymru. Cyfeiriodd at Gynllun Gweithredu Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban sydd â gweledigaeth i ddarparu cyllid a bod yn gatalydd i fuddsoddi preifat gan gryfhau twf economaidd yn yr Alban yn sylweddol drwy rymuso arloesi a chyflymu'r symudiad at economi carbon isel, uwch-dechnolegol, gysylltiedig, fyd-eang gystadleuol a chynhwysol'. Er ei bod yn ddyddiau cynnar ar y cynlluniau hyn, ac mae angen profi'r manteision, roedd y Cynllun Gweithredu'n nodi fod perchnogaeth y Llywodraeth yn fwy dymunol na pherchnogaeth breifat i sicrhau y gellid mynd ati'n hyderus, yn gyson ac yn hirdymor i gyflawni'r pwrpas pen draw. Mae'r cynigion yng Nghynllun Gweithredu'r Alban yn cynnwys cymorth buddsoddi ar gyfer busnesau bach a chanolig gyda chyllid benthyca cam cynnar a thymor canolig a model cydfuddsoddi ar gyfer buddsoddi ecwiti cam cynnar, a allai fod yn fodolau posib i'w hystyried.

Yn ôl un ymatebwr mae angen i ni edrych ar ddulliau cyllid mwy arloesol ac ehangu'r diddordeb mewn cyfranddaliadau os ydym am sicrhau bod ynni cymunedol yn ffurfio rhan sylweddol o'r targed ynni perchnogaeth leol o 1GW. Mae Abundance, Ethex a Mongoose Energy wedi datblygu pethau fel llwyfannau cyfranddaliadau cymunedol a marchnata, a mathau newydd o gyllid drwy fondiau a chyfrifon ISA, ar gyfer cynlluniau ynni cymunedol. Fodd bynnag, hyd yma nid ydynt yn cynnig gwasanaeth dwyieithog a chyrhaeddiad cyfyng iawn sydd ganddynt yng Nghymru. Teimlai un ymatebwr fod hyn yn rhywbeth y gallai Ynni Cymunedol Cymru arwain arno yng Nghymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r dystiolaeth wedi cynnig rhai modelau diddorol iawn i'w hystyried ar gyfer ateb yr her sylweddol o gyrraedd targedau perchnogaeth leol uchelgeisiol Llywodraeth Cymru. Rydym yn cynnig ystod o gynhyrchion ariannol i gwrdd â'r anghenion presennol ac yn trafod opsiynau cyllid gydag awdurdodau lleol sy'n datblygu prosiectau rhydwethiau gwres, sydd angen cyllid hirdymor penodol arnynt. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a dderbyniwyd, mae cyfle i ni bellach adolygu ein darpariaeth bresennol yn erbyn anghenion newydd ac i'r dyfodol.

Gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Byddwn yn adolygu ein darpariaeth ariannol ar y cyd â'n partneriaid presennol gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, Salix, noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid perthnasol.

Cwestiwn 17: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw fater cysylltiedig na roesom sylw penodol iddo, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.

Teimlai un ymatebwr fod gan gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol a dinesig, sy'n gweithio er budd dinesig yn hytrach nag elw preifat, botensial i adfywio dinasoedd, porthladdoedd a chymunedol arfordirol Cymru gan greu arbedion maint fel y gall diwydiannau eraill ffynnu ochr yn ochr. Tynnodd ymatebwr arall sylw at y ffaith fod y rhan fwyaf o gynlluniau (perchnogaeth leol), hyd yma, yn fach ac yn gysylltiedig â chymunedau gwledig gyda'r prif nod o leihau costau ynni a chreu incwm. Fodd bynnag, mae faint o ynni a gynhyrchir yn ddibwys yng nghyd-destun Cymru gyfan ac os am ennill budd o ynni cymunedol rhaid i ni ystyried y cyfleoedd sydd ar gael yn y cymunedau mwy mewn trefi a dinasoedd. Gallai trefi a dinasoedd olygu y byddai'r cynhyrchu a'r arbedion yn fwy, byddai hyn hefyd yn creu arbedion maint ac yn mynd i'r afael â'r mater o raglenni a thargedau ar wahân ar gyfer cynhyrchu ynni a lleihau galw.

Dywedodd un ymatebwr y dylai unrhyw ddogfen bolisi gan Lywodraeth Cymru gynnig tystiolaeth a rhesymau clir i egluro pam fod perchnogaeth leol yn syniad da, oherwydd nid yw'r cais am dystiolaeth yn cyflwyno dadl resymegol i ddarbwylllo y byddai mwy o berchnogaeth leol yn fuddiol na'n angenrheidiol, na beth fyddai'r manteision o ran buddion economaidd ac o ran mwy o gapasiti i gynhyrchu ynni carbon isel. Mae hefyd yn nodi y dylai'r ddogfen gynnwys dadansoddiad ariannol trylwyr yn egluro'r manteision i Gymru. Mae hefyd yn codi pryderon na fyddai perchnogaeth leol yn y sector preifat yng Nghymru'n cynnig mwy o fudd i Gymru bob tro. Er enghraifft nid oes unrhyw sicrwydd y byddent yn recriwtio na'n caffael yn lleol dim mwy nag y byddai sefydliadau preifat o'r tu allan i Gymru yn ei wneud.

Roedd un ymatebwr yn argymhell synergedd rhwng cyfraniad cyrff cyhoeddus at dargedau ynni adnewyddadwy a'r uchelgais i gael sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, i sicrhau y gallai'r ddau nod ildio'r budd a'r manteision mwyaf.

Roedd un ymatebwr yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai tai chwarae rôl mewn cynnig atebion i'r broblem ynni a hinsawdd. Bydd y rhan fwyaf o'r stoc dai bresennol yn dal i fod o gwmpas yn 2050 a bydd angen iddi fod yn garbon niwtral. Y teimlad oedd, drwy wneud cartrefi'n fwy ynni-effeithlon a gosod technoleg adnewyddadwy fel paneli PV ynddynt, fod ynni adnewyddadwy perchnogaeth leol yn llwyfan da i gyflawni'r gwaith hwn fesul ardal.

Roedd cwpwl o'r ymatebwyr yn argymhell rôl i Lywodraeth Cymru gyda rhoi cyngor ar fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy a chymryd rhan mewn cynlluniau lleol, gan sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu gwarchod. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd fod yn rhan o bontio'r system ynni, er enghraifft drwy sicrhau nad yw'r broses o drosglwyddo'r Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu i fod yn Weithredwyr System Ddosbarthu wedi'i sefydlu'n rhy gymhleth i gynlluniau lleol ei deall.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn sicr yn gyson â barn Llywodraeth Cymru am weld system ynni wedi'i datgarboneiddio a chynyddol ryng-gysylltiedig. Rhannwn y weledigaeth o weld prosiectau cynhyrchu ynni perchnogaeth leol llawer mwy'n cael eu datblygu, gweithredu a'u rheoli gan gwmnïau yng Nghymru gan bweru cartrefi a busnesau mwy effeithlon a dod â ffyniant economaidd ar draws Cymru.

Rydym yn gweithio'n weithredol gydag Ofgem a'r Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu sydd â seilwaith yng Nghymru i sicrhau cyfundrefn reoleiddio i'r dyfodol sy'n galluogi datblygu'r system ynni sydd ei hangen arnom yng Nghymru.

Pwrpas y cais am dystiolaeth hwn yw hel dystiolaeth at ei gilydd i ddarparu'r rhesymeg ddiymwad gymeradwy dros y targedau perchnogaeth, fydd yn rhan o'r datganiad polisi sydd mewn golwg.

Mae'r cais am dystiolaeth hwn yn canolbwyntio ar gynyddu perchnogaeth leol o ynni yng Nghymru. Mae'n rhan o ddull polisi ehangach a ddisgrifiwyd yn fwyaf diweddar yn ein hymgyngoriad ar ddatgarboneiddio Cymru, "[Cyflawni ein llwybr carbon isel at 2030](#)". Rhoddir mwy o fanylion am y cynigion newydd ar gyfer ynni o dudalen 26 ymlaen.

ATODIAD 1

Cefndir y cais am dystiolaeth hwn

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod targed cyfreithiol i leihau allyriadau 80% o leiaf erbyn 2050, ac yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod cyfres o dargedau dros dro (ar gyfer 2020, 2030 a 2040) a chyllidebau carbon bob pum mlynedd. Bydd y cyllidebau'n cyfyngu'r allyriadau yng Nghymru dros bob cyfnod o bum mlynedd, ac yn ein caniatáu i olrhain y cynnydd a wneir tuag at y targed tymor hir. Yn ôl y Ddeddf, mae'n rhaid inni osod y targedau dros dro a'r ddwy gyllideb garbon gyntaf (2016–20 a 2021–25) erbyn diwedd 2018.


Yn 2015, roedd y sector pŵer yn gyfrifol am 38% o allyriadau carbon Cymru. Mae gwresogi cartrefi a gweithleoedd yn defnyddio nwy'n bennaf, gyda rhywfaint o olew a thanwyddau solet, ac mae'r rhain yn ychwanegol i'r ffigur hwn. Rhan allweddol o gyflawni ein cyllidebau carbon fydd sicrhau ein bod yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon ac yn cynhyrchu rhagor o ynni o ffynonellau carbon isel.

Bydd angen cynhyrchu ynni o gymysgedd o dechnolegau gwahanol ac ar raddfeydd gwahanol, o raddfa gymunedol i brosiectau sylweddol, i ddiwallu'n hanghenion ynni ni yn y dyfodol. Rydym am yrru'r newid o garbon uchel i garbon isel, ac o gynhyrchu canolog i gynhyrchu gwasgaredig, mewn modd sy'n cyflawni'r buddion mwyaf posibl ar gyfer Cymru.

Rydym yn ystyried bod meddu ar brosiectau adnewyddadwy'n rhoi amrediad o fuddion i'r perchnogion. Yn ein barn ni, bydd cynyddu'r gyfran o gynhyrchiant ynni mae pobl a sefydliadau Cymru yn berchen arni'n sicrhau rhagor o'r buddion hyn ar gyfer Cymru. Trwy'r cais am dystiolaeth hwn, rydym am gadarnhau ac ychwanegu at ein sail dystiolaeth mewn perthynas â'r buddion y gall perchnogaeth eu rhoi.

Y sefyllfa bresennol mewn perthynas â pherchnogaeth

Ym mis Rhagfyr 2017, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar [gynhyrchu ynni yng Nghymru](#) gan ddefnyddio data ynni hyd at ddiwedd 2016. Roedd hwn yn dangos ym mis Rhagor 2016 fod 62,420 o brosiectau ynni adnewyddadwy o dan berchnogaeth leol yng Nghymru, gyda capasiti a osodwyd o 575 MW. Mae hyn wedi'i rannu rhwng 397 MW o drydan a 177 MW o gapasiti gwres. Mae capasiti ynni adnewyddadwy o dan berchnogaeth leol yn cyfrif am 17% o'r holl gapasiti ynni adnewyddadwy yng Nghymru.



¹Addaswyd o [Gynhyrchu Ynni yng Nghymru](#)

Panelli ffotofoltäig solar yw'r dechnoleg fwyaf cyffredin o dan berchnogaeth leol, ac mae'n cynrychioli 53,431 o'r 62,420 o osodiadau sydd o dan berchnogaeth leol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn osodiadau maint domestig. Fodd bynnag, ffermydd gwynt ar y tir yw'r dechnoleg sydd â'r capasiti gosodedig mwyaf o dan berchnogaeth leol ar 160 MW.

Mecanweithiau Llywodraeth y DU megis y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy, Tariffau Cyflenwi Trydan, y Farchnad Gapasiti, a'r Contract Gwahaniaeth yw'r prif offerynnau polisi yn y maes heb ei ddatganoli hwn. Gyda'i gilydd, mae'r rhain wedi creu ymchwydd o ynni adnewyddadwy rhwng 2010 a 2016 ac mae costau'r technolegau hyn wedi gostwng yn sylweddol. Mae Llywodraeth y DU wedi lleihau lefel y cymhellion mewn ymateb i gostau llai ac er mwyn rheoli costau'r mecanweithiau ategol. Nid yw datblygu ynni adnewyddadwy bellach yn rhoi'r cyfraddau uchel o enillion a gafwyd yn flaenorol ac yr oedd llawer wedi dechrau eu disgwyl, er ei fod yn parhau i wneud synnwyr dros y tymor hwy. Mae'r cais am dystiolaeth hwn yn ceisio archwilio goblygiadau'r ymrwymiad i berchnogaeth leol, gan ystyried yr amgylchedd anodd cyfredol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy, yn ogystal â'u buddion tymor hir.

Ein nod

Wrth archwilio perchnogaeth leol, ein nod yw casglu tystiolaeth ynghylch sut y gall cynhyrchu ynni adnewyddadwy sicrhau buddion ar gyfer Cymru a rhannu'r buddion hyn mewn modd mwy cyfiawn. Ein nod yw defnyddio'r cais am dystiolaeth i helpu i nodi'r heriau y bydd yn rhaid i ddatblygwyr, busnesau, awdurdodau lleol, cymunedau ac eraill eu trechu er mwyn llwyddo i gynhyrchu rhagor o ynni adnewyddadwy o dan berchnogaeth leol a chyberchnogaeth.

Rydym yn credu ei bod yn bosibl dylunio datblygiadau ynni y gall pobl leol eu cefnogi a bod yn rhan ohonynt. Gallai prosiect a gynllunnir mewn modd cydweithiol, gyda chymunedau – naill ai grwpiau neu awdurdodau lleol – yn cyfrannu gwybodaeth a chymorth lleol, a datblygwyr yn cyfrannu eu sgiliau masnachol a thechnegol fod yn ffordd effeithiol o ddatblygu prosiectau da yn y manau cywir.

Mae'r cais am dystiolaeth hwn yn gyfle i gymunedau, datblygwyr, busnesau eraill a chyrff sector cyhoeddus roi tystiolaeth. Rydym yn edrych am enghreifftiau o sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni prosiectau o dan gydberchnogaeth. Rydym hefyd yn ceisio tystiolaeth ynghylch yr anghenion cymorth penodol i gynyddu nifer y prosiectau ynni adnewyddadwy sydd o dan berchnogaeth leol neu gydberchnogaeth. Rydym yn awyddus i glywed am brofiadau gan bobl o fewn Cymru a'r DU yn ogystal â thystiolaeth o bedwar ban y byd.

Diffiniadau

Rydym yn defnyddio'r term "ynni lleol" i gyfeirio at osodiadau cynhyrchu ynni y mae sefydliadau Cymru yn berchen arnynt ac sy'n darparu buddion ar gyfer Cymru trwy gyfrannu at hyfywedd ariannol neu gydnerthedd y sefydliad sy'n berchen ar y gosodiad.

Amlinellir ein diffiniadau arfaethedig yn Adran 2.

Gwasanaethau'r dyfodol

Mae'r cais am dystiolaeth hwn yn ceisio safbwyntiau datblygwyr, cymunedau, y sector cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ar sut y dylem ddatblygu perchnogaeth leol a chydberchnogaeth yng Nghymru.

Mae cymunedau a busnesau ledled Cymru wedi elwa ar gymorth o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig, sy'n cydnabod rôl cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni mewn perthynas â chydnerthedd a ffyniant ardaloedd gwledig.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynorthwyo cyrff sector cyhoeddus i ddatblygu effeithlonrwydd ynni a phrosiectau ynni adnewyddadwy trwy Wasanaeth Twf Gwyrdd Cymru.

O ran arloesedd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, prifysgolion a gweithredwyr rhwydwaith i hwyluso arddangoswyr Byw yn Glyfar, sy'n ymdrin â chynigion sy'n seiliedig ar le ac yn cael eu harwain gan anghenion gan ddefnyddio technolegau, systemau a phrosesau arloesol i lywio datblygiadau'r dyfodol.

Rydym yn credu mai cymunedau yw'r perchnogion lleol sydd â'r lleiaf o adnoddau, a dyma pam rydym wedi eu cefnogi trwy Ynni'r Fro a rhaglenni [Ynni Lleol Llywodraeth Cymru](#).

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried pa gymorth a allai fod ei angen i gynyddu cynhyrchu ynni'n lleol. Bydd y cais am dystiolaeth hwn yn ein helpu ni i roi sylw i unrhyw angen trwy ein gwasanaethau cymorth ac arweiniad.

Gwybodaeth bellach

Byddwn yn cynnal cyfres o weithdai yn gynnar yn 2018 yn rhan o'r broses cais am dystiolaeth. Os oes diddordeb gennych mewn mynychu'r gweithdai hyn, anfonwch e-byst at energypolicymailbox@gov.wales.

Adran 1: Targedau

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig wedi gosod targed ynni i 1 GW o gapasiti ynni adnewyddadwy yng Nghymru fod o dan berchnogaeth leol erbyn 2030, a nod y bydd gan yr holl brosiectau ynni adnewyddadwy newydd o leiaf elfen o berchnogaeth leol erbyn 2020. Mae hi wedi gosod y targedau ynni adnewyddadwy hyn ar gyfer perchnogaeth leol i sicrhau bod Cymru yn derbyn y buddion o'r newid i system ynni carbon isel.

Ar hyn o bryd, mae'r targed o 1 GW yn cynnwys prosiectau ynni trydan adnewyddadwy yn unig. Rydym yn ymwybodol y gallai hyn gael effaith negyddol ar brosiectau gwres, sydd, er eu bod yn anodd, yn bwysig iawn ar gyfer datgarboneiddio. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ehangu'r targed hwn i gynnwys trydan a gwres.

Rydym hefyd yn ystyried a yw'n bosibl y bydd disgwyl y gallai prosiectau ynni eraill gael eu datblygu ar sail gydberchnogaeth.

Cwestiwn 1: Rhowch dystiolaeth o blaid neu yn erbyn ehangu'r targed o 1 GW i gynnwys prosiectau trydan a gwres.

Cwestiwn 2: Rhowch dystiolaeth ynghylch y lefel o berchnogaeth y dylem ei hystyried ei bod yn rhesymol i gyflawni'r gofyniad.

Cwestiwn 3: Rhowch dystiolaeth i gefnogi neu i herio ehangu'r disgwyl mewn perthynas â chydberchnogaeth i gynnwys prosiectau trydan a gwres newydd eraill.

[I fynd yn ôl i ymatebion Rhan 1](#)

Adran 2: Diffiniadau

Perchnogaeth leol

Ein diffiniad ni o ynni o dan berchnogaeth leol yw gosodiadau ynni a leolir yng Nghymru o dan berchnogaeth unigolyn neu sefydliad a leolir yn hollol yng Nghymru neu sydd â'i brif bencadlys yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y categorïau canlynol:

- Ffermydd ac ystadau
- Awdurdodau lleol
- Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- Busnesau a leolir yng Nghymru yn unig
- Busnesau y mae eu prif bencadlys yng Nghymru
- Sefydliadau sector cyhoeddus eraill
- Elusennau a sefydliadau trydydd sector eraill
- Cartrefi a gosodiadau cynhyrchu ynni eraill ar raddfa ddomestig

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â'r diffiniad uchod o berchnogaeth leol?

<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

Rhowch dystiolaeth i gefnogi neu i ddiwygio'r diffiniad o berchnogaeth leol.

Cyberchnogaeth

Diffiniad cyberchnogaeth yw prosiect sydd o dan berchnogaeth mwy nag un endid cyfreithiol. Mae enghreifftiau'n bodoli lle mae perchnogaeth prosiect yn cael ei rhannu rhwng datblygwr a grŵp cymunedol, unigolion neu sefydliad sector cyhoeddus. Gall prosiectau sydd o dan gyberchnogaeth gynnwys mwy nag un sefydliad masnachol.

Fodd bynnag, er mwyn cael ei hystyried yn brosiect cyberchnogaeth o dan y targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, byddem yn disgwyl i o leiaf un o'r cyrff sy'n berchen arno fod yn un o'r sefydliadau neu'r unigolion a gynhwysir yn y diffiniad o "ynni lleol".

Yn ein barn ni, dylai cyberchnogaeth gynnwys pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru, a darparu buddion i Gymru, nid i gyfranddalwyr allanol yn unig. Mae'n

bosibl hefyd y bydd cydberchnogaeth yn cynnwys pobl leol yn y gwaith datblygu o'r cam cynllunio ymlaen, ac yn cynnig cyfle iddynt ddod yn gyfranddalwyr mewn prosiectau ynni.

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'r diffiniad o gydberchnogaeth uchod?

- | | | | | |
|--------------------------|--------------------------|---------------------------------------|--------------------------|--------------------------|
| <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno
nac yn
anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n
gryf |

Rhowch dystiolaeth i gefnogi neu i ddiwygio'r diffiniad o berchnogaeth leol.

Perchnogaeth gymunedol

Ein diffiniad ni o osodiad cymunedol yw datblygiad ynni a leolir yng Nghymru sydd yn hollol o dan berchnogaeth menter gymdeithasol ac y mae ei enillion yn ymrwymedig mewn cyfraith i gyflawni amcanion cymdeithasol a/neu amgylcheddol yng Nghymru.

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno â'r diffiniad o berchnogaeth gymunedol uchod?

- | | | | | |
|--------------------------|--------------------------|---------------------------------------|--------------------------|--------------------------|
| <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno
nac yn
anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n
gryf |

Rhowch dystiolaeth i gefnogi neu i ddiwygio'r diffiniad o berchnogaeth leol.

Mae busnesau a thirfeddianwyr yn benodol wedi bod yn gwneud cynnydd gwych wrth ddefnyddio cynhyrchiant ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, er mwyn bodloni'r targed o 1 GW, rydym yn credu y bydd angen inni gefnogi cymunedau, unigolion, cyrff sector cyhoeddus a busnesau yng Nghymru neu sicrhau rhan uwch o berchnogaeth ar ddatblygiadau mwy.

Mae prosiectau ynni cymunedol yn canolbwyntio ar ddatblygu asedau sydd o dan berchnogaeth grŵp neu gymuned, gan ddefnyddio'r holl fuddion maent yn eu creu i gyflawni canlyniadau sy'n fuddiol yn lleol. Yn wahanol i sefydliadau a gynhwysir yn y

diffiniad o leol, yn aml nid oes ganddynt ond ychydig neu ddim mynediad at gyllid ac arbenigedd datblygiadol. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo cymunedau i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ers 2010. Rydym yn deall, o'n gwaith agos gyda grwpiau ledled Cymru, pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn. Rydym yn parhau i gynorthwyo cymunedau i ddatblygu eu cynhyrchiant eu hunain ac i archwilio ffyrdd i ddefnyddio'r ynni'n lleol.

Fodd bynnag, mae niferoedd y modelau hyn sy'n hollol o dan berchnogaeth gymunedol yn parhau i fod yn gymharol isel. Mae disgwyl i bob grŵp ddysgu ddod yn ddatblygwr ynni yn ffordd gymharol aneffeithlon o gynyddu cynhyrchiant ynni o dan berchnogaeth leol. Mae'r dull hwn hefyd yn debygol o fod yn anfanteisiol i gymunedau mwy difreintiedig a llai cysylltiedig. Mae grŵp o fentrau cymdeithasol sy'n dod i'r amlwg a chanddynt hanes o gyflawni prosiectau ynni, a rhai ohonynt yn datblygu asedau ar ran cymunedau eraill gan ddefnyddio modelau cydweithredol a chydweithiol.

Gallai prosiectau mwy o dan gydberchnogaeth fod yn ffordd bwysig o gynyddu faint o ynni sy'n cael ei gynhyrchu o dan berchnogaeth leol yng Nghymru, gan gyflawni buddion real, parhaus ar gyfer y cymunedau sy'n cynnal y prosiectau hyn. Prin yw'r dystiolaeth sydd gennym hyd yn hyn o brosiectau o dan gydberchnogaeth yng Nghymru, ac o'r hyn sydd ei angen i sicrhau eu bod yn cyflawni'r buddion a ragwelir.

Rydym yn cynorthwyo Ynni Cymunedol Cymru, y mae ei gyfarwyddwyr yn cynnwys ffigurau arweiniol o lawer o'r datblygwyr ynni cymdeithasol a leolir yn y gymuned, i weithio gyda datblygwyr masnachol i ddod o hyd i gyfleoedd newydd i ddatblygu prosiectau o dan gydberchnogaeth yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn gweithio gydag Ynni Cymunedol Cymru i ddarganfod sut rydym yn gallu cymhwyso'r dull hwn i gydberchnogaeth ar dir cyhoeddus.

[I fynd yn ôl i ymatebion Rhan 2](#)

Adran 3: Tystiolaeth o fuddion perchnogaeth

Perchnogaeth

Gall prosiectau ynni adnewyddadwy ddarparu buddion ariannol ac anariannol. Bydd unrhyw brosiect masnachol hyfyw yn darparu elw ar gyfer ei berchennog. Lle y lleolir y perchennog yng Nghymru (mae'r datblygiad o dan berchnogaeth leol), dylai hyn gynyddu ffyniant yng Nghymru.

Buddion i'r economi leol

Bydd ynni adnewyddadwy hefyd yn darparu cyflogaeth trwy ei ddatblygu, ei gyflawni, ei gynnal a'i waredu. Bydd pob prosiect yn darparu rhywfaint o gyflogaeth leol, a all fod yn fwy neu'n llai proffidiol.

Mae rhai datblygwyr yn gweithio'n galed i gaffael contractwyr lleol i ddatblygu ac i gyflawni prosiectau. Mae hyn yn dibynnu ar gapasiti ac ansawdd y gadwyn gyflenwi sydd ar gael yn ogystal ag ar awydd y datblygwr i brynu'n lleol. Yng Nghymru, bu gwariant lleol yn bennaf ym maes peirianeg sifil megis paratoi'r tir.

Rydym yn croesawu tystiolaeth o fuddion lleol gan brosiectau a gyflawnwyd yng Nghymru hyd yn hyn. Rydym hefyd yn croesawu tystiolaeth o brinderau sgiliau neu gadwyni cyflenwi sy'n atal datblygwyr rhag gwario'r rhan fwyaf o'u cyllid datblygu ac adeiladu yng Nghymru.

Cronfeydd budd cymunedol

Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy sydd wedi cael eu hariannu trwy gymhellion neu gymorthdaliadau Llywodraeth y DU hefyd wedi tueddu i ddarparu pecynnau budd cymunedol. Yn dibynnu ar faint y gosodiad, gallant fod yn gronfeydd arian, fel arfer tua £5,000 y flwyddyn ar gyfer pob MW o gapasiti a osodwyd. Gallant hefyd gynnwys buddion amgylcheddol neu gymdeithasol, megis hyfforddiant, addysg neu adfer amgylcheddol, yn aml ar ffurf amodau cynllunio.

Gall cronfeydd budd cymunedol fod yn arwyddocaol ar gyfer ardal, yn enwedig gyda datblygiadau mawr. Fodd bynnag, mae tystiolaeth y bydd yn fwy heriol darparu cronfeydd budd cymunedol sylweddol mewn cyfnod lle nad oes ond ychydig neu ddim mecanweithiau llywodraethol ategol.

Budd buddsoddwyr

Mae buddsoddwyr mewn prosiect yn gallu elwa ar gyfran o'r incwm o'r prosiect trwy'r llog y maent yn ei dderbyn. Gall yr incwm amrywio, fel gydag unrhyw fuddsoddiad, ac mae'n bosibl y bydd risg. Fel arfer, mae gan ddatblygwyr rywfaint o fynediad at eu cyllid eu hunain, neu mae ganddynt gydberthnasau ag un neu fwy o sefydliadau cyllido. Mae sicrhau eu holl gyllid gan un neu ddau ariannwr yn gymharol syml o ran diwydrwydd dyladwy a threfniadau cytundebol. Fodd bynnag, rydym wedi'i chael ar ddeall y gall fod yn anodd iawn i unigolion neu arianwyr bach fuddsoddi mewn prosiect.

Cynigion cyfranddaliadau

Mae cymunedau wedi tueddu i godi arian trwy gynigion cyfranddaliadau (yn debyg i gyllid torfol) lle y gwneir cynnig buddsoddi ac mae pobl yn dewis prynu cyfranddaliadau. Mae'n bosibl buddsoddi cyn lleied â £50 mewn cynigion cyfranddaliadau o'r fath. Fodd bynnag, mae'n gallu cymryd amser maith i ddatblygu a hyrwyddo cynnig cyfranddaliadau a chael y lefel o fuddsoddiad sydd ei hangen. At ei gilydd, mae cynigion cyfranddaliadau'n tueddu i apelio at fuddsoddwyr sy'n gallu buddsoddi eu harian eu hunain ac sy'n fodlon aros am gyfnod cyn i'r buddsoddiad ildio enillion.

Buddion anariannol

Nid yw llawer o sefydliadau, yn enwedig grwpiau cymunedol, yn datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy er budd ariannol yn unig. Gall y buddion anariannol o gynllun ynni adnewyddadwy sydd o dan berchnogaeth leol fod fel a ganlyn:

- Grymuso cymunedol
- Datblygu sgiliau
- Cynyddu undod cymunedau
- Dealltwriaeth well o ynni
- Potensial i reoli eich cyflenwad ynni eich hun
- Mynd i'r afael â thlodi ynni naill ai trwy gefnogi mesurau effeithlonrwydd ynni neu gostau tanwydd llai
- Derbynioldeb y prosiect o fewn yr ardal leol
- Cefnogaeth ganlyniadol ar gyfer prosiectau eraill o fewn yr ardal leol
- Cyflawni blaenoriaethau lleol eraill o'r incwm a dderbynnir

Mewn damcaniaeth, gallai cydberchnogaeth ddod â rhai o'r buddion anariannol a restrir uchod i brosiectau mwy. Mae'n bosibl y gallai hyn arwain at gostau a chyfrifoldebau cyfalaf a datblygu refeniw is ar gyfer pob parti, a darparu rhagor o fuddion anariannol. Fodd bynnag, mae'n debygol o gynyddu cymhlethdod y prosiect.

Cwestiwn 7: Rhowch dystiolaeth o fuddion sydd eisoes yn cael eu cyflawni ar gyfer Cymru o brosiectau ynni adnewyddadwy.

Cwestiwn 8: Rhowch dystiolaeth o werth cymharol y gwahanol fuddion a amlinellir yn yr adran uchod. Fel rhan o'r asesiad hwn, byddwn yn croesawu tystiolaeth ynghylch pa flaenoriaethau y dylid cael eu gweithredu i sicrhau buddion uwch ar gyfer Cymru.

[I fynd yn ôl i ymatebion Rhan 3](#)

Adran 4: Heriau prosiectau o dan gydberchnogaeth

I helpu i ddatblygu cydberchnogaeth, mae'r Gwasanaeth Ynni Lleol yn darparu porth partneriaeth. Nod hwn yw helpu sefydliadau megis awdurdodau lleol, datblygwyr, grwpiau cymunedol a buddsoddwyr i gysylltu â'i gilydd er mwyn cyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy, neu i rannu eu profiadau a chynnig cymorth i'w cymheiriaid. Fodd bynnag, nid yw'r porth wedi cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial ac nid yw'n cael ei ategu gan gymorth arall.

Nid yw cymunedau'n derbyn yr un lefel o adnoddau ag y mae datblygwyr, cyrff sector cyhoeddus a busnesau eraill yn ei derbyn. Mewn perthynas â chydberchnogaeth, rydym wedi clywed hanesynnau am anfodlonrwydd cymunedau i weithio gyda datblygwyr mwy oherwydd yr anawsterau wrth gael consensws cymunedol mai dyma'r peth iawn i'w wneud, diffyg ymddiriedaeth, neu bŵer anghytbwys posibl rhwng partneriaid sydd â lefelau gwahanol o gapasiti ac adnoddau. Mae'n bosibl hefyd fod datblygwyr yn anfodlon cynnwys grwpiau cymunedol oherwydd rhagor o gymhlethdod a chostau a heriau wrth gael mynediad at gyllid. Mae'n debyg y bydd angen cymorth ar bob partner i fynd â phrosiectau sydd o dan gydberchnogaeth yn eu blaen.

Cwestiwn 9: Rhowch dystiolaeth o heriau penodol mewn perthynas â phrosiectau sydd o dan gydberchnogaeth. Fel rhan o'r asesiad hwn, byddem yn croesawu dystiolaeth i ddangos a yw cydberchnogaeth ei hun yn rhwystr i gynnal prosiectau ynni adnewyddadwy.

Cwestiwn 10: Rhowch dystiolaeth o achos lle mae her neu rwystr i brosiect o dan gydberchnogaeth wedi derbyn sylw'n llwyddiannus.

[I fynd yn ôl i ymatebion Rhan 4](#)

Adran 5: Modelau perchnogaeth

Mae'n bosibl y bydd prosiectau o dan berchnogaeth a gweithrediad unigolyn neu sefydliad sengl, gyda'r unigolyn neu'r sefydliad hwnnw'n derbyn yr holl enillion. Mae modelau sydd â pherchennog cyfreithiol sengl yn cynnwys y canlynol:

- **Perchnogaeth unigol:** mae unigolyn yn berchen ar y prosiect, e.e. gosodiad domestig.
- **O dan berchnogaeth gweithredwr (gan gynnwys 100% o dan berchnogaeth gymunedol):** prosiect sy'n hollol o dan berchnogaeth busnes, corff cyhoeddus neu fenter arall. Mae'r perchennog yn rheoli'r prosiect yn llwyr ac yn derbyn yr holl fuddion.

Mae modelau o dan gydberchnogaeth yn rhannu buddion rhwng dau barti neu fwy. Gall y rhain gynnwys datblygwr masnachol, corff cyhoeddus, tirlfeddiannwr, unigolyn, busnes neu grŵp cymunedol. Mae'r prif fodelau ac iddynt elfen o rannu buddion fel a ganlyn:

- **Menter ar y cyd** – mae'r gweithredwr masnachol a'r sefydliad arall yn gweithio gyda'i gilydd i greu menter ar y cyd i ddatblygu, perchnogi a rheoli'r prosiect ynni adnewyddadwy. Fel arfer, mae cwmni newydd yn cael ei greu i ddatblygu a rheoli prosiect cynhyrchu ynni newydd, gyda phob partner yn cadw cyfranddaliadau yn y cwmni.
- **Perchnogaeth a rennir** – lle mae cynllun yn cael ei rannu yn ddwy system cynhyrchu ynni neu fwy, gyda phob un wedyn yn cynhyrchu ynni er budd y perchennog. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddai sefydliad cymunedol neu fusnes lleol yn derbyn y refeniw a gynhyrchir gan un neu fwy o dyrbinau gwynt mewn prosiect ac iddo nifer o dyrbinau. Gallai hwn gael ei **arwain gan ddatblygwr masnachol** (y gwaith o ddatblygu ac adeiladu'r prosiect yn cael ei arwain gan ddatblygwr masnachol, gyda rhanddaliadau/cyfranddaliadau yn y prosiect o dan gydberchnogaeth yn cael eu cynnig neu eu rhoddi i'r gymuned) neu gan **ddatblygwr lleol** (y gwaith o ddatblygu'n cael ei arwain gan y busnes, awdurdod cyhoeddus neu gymuned, a gofynnir i ddatblygwr adeiladu a buddsoddi yn y prosiect o dan gydberchnogaeth).
- **Refeniw a rennir** – mae'r datblygwr masnachol yn datblygu'r prosiect ac yn cynnig cyfranddaliad refeniw i sefydliad arall, sy'n buddsoddi mewn rhanddaliad ariannol yn y gwaith datblygu yn gyfnewid am ran o'r enillion. Fodd bynnag, nid yw'r sefydliad arall yn berchen ar ased ffisegol, ond mae'n prynu'r hawl i ffrwd refeniw yn y dyfodol, sy'n cael ei chyfrifo ar sail cyfran benodol o allbwn gosodiad, wedi tynnu costau gweithredu ac fel arfer wedi tynnu gwasanaeth dyled rhithwir. Mae hyn yn cael ei gyfrifo pe bai'r sefydliad arall wedi caffael y seilwaith sylfaenol.

Mae'r mathau canlynol o sefydliadau cymunedol a gyfansoddir mewn cyfraith wedi cael eu nodi:

- **Cymdeithas budd cymunedol:** mae pobl yn y gymuned leol yn dod yn aelod o'r gymdeithas ac yn prynu cyfranddaliadau i ariannu'r prosiect.
- **Elusennau cymunedol** gwelir y rhain fel arfer ar ffurf cymdeithas ac iddi statws elusennol sy'n darparu neu redeg cyfleusterau ar gyfer y gymuned leol. Mae'n bosibl y bydd gan elusennau o'r fath ganghennau masnachu ar gyfer cwmnïau budd cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol megis rheoli prosiectau ynni.
- **Ymddiriedolaethau:** defnyddir y rhain i gynrychioli buddiannau cymunedau mewn perchnogaeth gymunedol.

Mae'r astudiaethau achos isod yn dangos sut mae dulliau gwahanol wedi cael eu defnyddio yng Nghymru.

Astudiaeth Achos 1

Prosiect: Bro Dyfi Community Renewables

Lleoliad: Machynlleth yng nghanolbarth Cymru

Technoleg: Tyrbinau gwynt

Maint: 575 kW (2 dyrbin)

Cynhyrchu: Digon o drydan i fodloni anghenion domestig 195 o gartrefi bob blwyddyn

Perchnogaeth: Prosiect cydweithredol 100% o dan berchnogaeth gymunedol

Mae Bro Dyfi Community Renewables (BDCR) yn brosiect ynni adnewyddadwy cydweithredol a arweinir gan y gymuned ac sydd o dan berchnogaeth gymunedol. Gan ddefnyddio tyrbinau sydd wedi cael eu hailwampio, bu i BDCR ddarparu cyfle i bobl Bro Dyfi berchnogi a gweithredu dau dyrbin a leolir ar y brynïau uwchben y Ganolfan ar gyfer Technoleg Amgen.

Mae BDCR yn hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni ac arbed carbon i aelodau a'r gymuned ehangach trwy'r Gronfa Ynni Cymunedol leol. Mae hefyd yn cefnogi'r corff datblygu cynaliadwy anllywodraethol lleol, sef Ecodyfi. Wedi'i sefydlu yn 2001, BDCR yw'r prosiect ynni cymunedol sefydlog hynaf yng Nghymru, ac mae dros 65% o'i gyfranddalwyr yn byw o fewn ardaloedd cod post lleol SY20–23.





Astudiaeth Achos 2

Prosiect: Transition Bro Gwaun – Tyrbin Cymunedol Abergwaun

Lleoliad: Abergwaun, Sir Benfro

Technoleg: Tyrbinau gwynt

Maint: 225 kW

Cynhyrchu: 590,000 KWh y flwyddyn, cyfatebol i ddarparu pŵer ar gyfer 140 o gartrefi bob blwyddyn

Perchnogaeth: Menter gydberchnogaeth wedi'i rhannu yn gyfartal rhwng y gymuned a'r tîrfeddiannwr

Bydd cyfran Transition Bro Gwaun o'r enillion yn cael ei defnyddio i helpu i ariannu prosiectau carbon isel cymunedol eraill trwy Gronfa Adfywio Carbon Isel Gymunedol. Byddai grantiau'n cael eu dyfarnu i brosiectau sy'n gallu dangos eu bod wedi lleihau carbon yn sylweddol.



Astudiaeth Achos 3

Prosiect: Prosiect Ynni Gwynt Pen y Cymoedd

Lleoliad: Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf

Technoleg: Tyrbinau gwynt

Maint: 228 MW (76 thyrbîn)

Cynhyrchu: Digon o ynni i fodloni anghenion domestig 188,000* o gartrefi bob blwyddyn, sy'n gyfatebol i 15% o gartrefi Cymru

Perchnogaeth: 100% o dan berchnogaeth y datblygwr (Vattenfall)

Prosiect Ynni Gwynt Pen y Cymoedd yw'r fferm wynt ar y tir fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Cafodd £220 miliwn o'r gost o £400 miliwn ei wario yng Nghymru, gan sicrhau dros 1,000 o swyddi ac arwain at 23 o swyddi llawn amser lleol.

Mae Cronfa Gymunedol Pen y Cymoedd yn cynrychioli buddsoddiad cymunedol uniongyrchol gan Brosiect Ynni Gwynt Pen y Cymoedd yn yr ardal sy'n cynnal y prosiect, sef cymoedd uwch Afan, Cynon, Nedd a Rhondda. Y gronfa fydd y gronfa ynni gwynt gymunedol fwyaf yn y DU, gan wneud tua £1.8 miliwn ar gael bob blwyddyn ar gyfer bywyd gweithredol y fferm wynt o tua 20 mlynedd. Mae mwy na 3,000 o breswylwyr, grwpiau a sefydliadau o gymoedd uwch Rhondda, Cynon, Afan a Nedd wedi helpu i ffurfio'r weledigaeth ar gyfer y gronfa. Bydd y gronfa yn cael ei rheoli gan gwmni budd cymunedol, wedi'i sefydlu gan Vattenfall, er mwyn cyflawni'r buddion gorau posibl. Penodwyd y bwrdd ynghynt eleni trwy broses recriwtio agored.

[*http://www.renewableuk.com/page/UKWEDEExplained](http://www.renewableuk.com/page/UKWEDEExplained)

Cwestiwn 11: Rhowch dystiolaeth o ddatblygiadau sy'n defnyddio modelau o berchnogaeth nad ydynt wedi'u cynnwys uchod.

Cwestiwn 12: Rhowch dystiolaeth i ddangos y modelau mwyaf defnyddiol ar gyfer cyflawni cydberchnogaeth a budd lleol.

[I fynd yn ôl i ymatebion Rhan 5](#)

Adran 6: Cyllid

Mae'r dystiolaeth gyfredol yn awgrymu bod y prif ffynonellau o gyllid cyfalaf ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy yn cael eu darparu gan fenthycwyr masnachol traddodiadol: banciau stryd fawr; benthycwyr sy'n darparu cyllid yn benodol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy; ffynonellau cyllido sector cyhoeddus megis y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus; cyllid gan gyrff elusennol a chyllid y Loteri Genedlaethol; Banc Datblygu Cymru; a chynigion cyllid Llywodraeth Cymru y Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, y Gronfa Ynni Lleol a Thwf Gwyrdd Cymru. Mae grwpiau lleol neu ranbarthol sy'n darparu grantiau cyfalaf i ariannu prosiectau yn eu hardal. Mae cronfeydd cymunedol o brosiectau ynni adnewyddadwy mawr megis Windfall a Chronfa Gymunedol Pen y Cymoedd bellach wedi dechrau darparu cyllid rhanbarthol.

Astudiaeth Achos 4

Enw: Windfall (Ymddiriedolaeth Ynni Gymunedol y Canolbarth)

Lleoliad: Y Canolbarth

Natur: Cronfa er lles y Gymuned

Incwm Blynyddol: Ar hyn o bryd, £20,000 y flwyddyn



Statws cyfreithiol: Cwmni cyfyngedig trwy warant

Amcan swyddogol: Dod â budd i'r gymuned ac amddiffyn yr amgylchedd, i hyrwyddo a hwyluso ynni cynaliadwy a defnydd effeithiol o ynni.

Cyswllt: www.windfall.org.uk

Mae Windfall yn casglu cyfran o'r refeniw a ddaw o gynhyrchu ynni yn y Canolbarth ac yn ei ailddosbarthu fel grantiau i'r cymunedau sydd ger y ffermydd gwynt sy'n cyfrannu ato i gynnal prosiectau arbed ynni ac ynni adnewyddadwy. Yr ardaloedd yn Sir Drefaldwyn sy'n elwa, yn arbennig, yw ardaloedd Cynghorau Cymuned Carno, Caersŵs, Trefeglwys, Dwyriw, Llanbryn-mair a Llanerfyl. Amegni, perchennog Carno 2, yw'r prif gyfrannwr.

Mae Ysgol Trefeglwys (solar), ysgolion eraill (prosiectau addysgol) a Chanolfan Gymunedol Carno (gwresogi â phelets pren, rheoli gwres ac ynni solar) ymhlith y rheini sydd wedi elwa.

Mae'r rhan fwyaf o brosiectau cymunedol hefyd wedi codi cyllid trwy gynigion cyfranddaliadau. Mewn llawer o achosion, mae'r cynigion hyn wedi cael eu lansio yn

ystod neu ar ôl y gwaith o adeiladu'r prosiectau hyn. Mae'r cynnig cyfranddaliadau wedyn wedi cael ei ddefnyddio i dalu cyllid dyledion.

Mae cyfranddaliadau mewn cynllun ynni cymuned bob amser bron yn disodli'r hyn a fyddai wedi bod yn gyllid dyledion masnachol o'r tu allan i Gymru ac yn aml nhw yw'r ffordd i sicrhau cyfiawnder ar gyfer grŵp cymunedol. Lle y prynir cyfranddaliadau gan bobl leol, bydd y taliadau difidend yn cadw cyfoeth yn yr ardal leol. Fodd bynnag, mae'n anodd cyfyngu cynigion cyfranddaliadau i ardal ddaearyddol.

Roedd y sail resymegol ar gyfer perchnogaeth leol a amlinellwyd ynghynt yn y cais am dystiolaeth yn seiliedig ar fuddion yn cael eu cysylltu'n uniongyrchol â pherchnogaeth y prosiectau. Yn flaenorol, bu inni ofyn cwestiynau ynghylch p'un ai perchnogaeth y prosiect neu berchnogaeth y cyfalaf a oedd yn darparu'r budd mwyaf. Os yw buddion yn gysylltiedig â pherchen ar y cyfalaf, mae'n bosibl y bydd angen codi rhagor o gyfalaf a leolir yng Nghymru.



Astudiaeth Achos 5

Prosiect: Paneli Ffotofoltäig Solar Grŵp Cydweithredol Egni (Cymru)

Lleoliad: Adeiladau cymunedol yng nghymoedd de Cymru

Technoleg: Paneli ffotofoltäig solar

Maint: 119 kWp

Perchnogaeth: O dan berchnogaeth grŵp cydweithredol

Mae Paneli Ffotofoltäig Solar Grŵp Cydweithredol Egni (Cymru) yn grŵp cydweithredol a sefydlwyd i osod paneli solar ar adeiladau cymunedol. Bu i'r cynnig cyfranddaliadau godi £171,000 gan 94 aelod. Cafodd yr arian a godwyd ei ddefnyddio i dalu am y gwaith o osod paneli solar. Mae'r adeiladau cymunedol yn derbyn trydan wedi'i greu gan y paneli solar yn rhad ac am ddim, tra bo'r incwm o'r tariff cyflenwi trydan yn mynd yn ôl i'r grŵp cydweithredol ac yn cael ei ddychwelyd i aelodau. Yn 2016, cafodd technoleg solar gyfateb i 60 kW ei gosod ar ddau safle newydd gyda chyllid pontio gan Fanc Cymunedol Robert Owen. Mae cynnig cyfranddaliadau newydd ar y gweill ar gyfer 2018 i dalu Banc Cymunedol Robert Owen ac i ariannu gosodiadau ychwanegol. Mae safleoedd cyfredol Egni fel a ganlyn:

- Awel Aman Tawe, Cwmllynfell
- Gweithdai Dove, Banwen
- Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd
- Ysgol y Bedol, y Garnant
- Canolfan Gymunedol Blaendulais
- Canolfan Phoenix, Abertawe
- Canolfan Hamdden Trimsaran

Cwestiwn 13: Rhowch dystiolaeth o'r mathau a'r ffynonellau cyllid a ddefnyddir i ddatblygu prosiectau ynni yng Nghymru. Byddai tystiolaeth i gefnogi neu i herio parhau â chynigion cyllid Llywodraeth Cymru o gymorth.

Cwestiwn 14: Rhowch dystiolaeth o effaith modelau cydberchnogaeth ar gost neu fynediad at gyllid.

[I fynd yn ôl i ymatebion Rhan 6](#)

Adran 7: Rôl mecanweithiau buddsoddi a chwmni ynni

Ynghynt eleni, bu i Lywodraeth Cymru gasglu tystiolaeth a safbwyntiau ynghylch y potensial ar gyfer cwmni ynni dielw ar gyfer Cymru. Gwnaethom gynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ym mis Mawrth. Roedd y digwyddiadau hyn yn edrych yn benodol ar gwmni cyflenwi ynni. Fodd bynnag, bu iddynt hefyd gasglu safbwyntiau ar swyddogaethau eraill sydd eu hangen i ategu'r gwaith o gyflawni polisiau ynni neu ganlyniadau cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru, a allai gynnwys sefydlu cwmni ynni dielw.

Bu i'r broses ddatblygu consensws clir ynghylch y risgiau, yr heriau a'r tensiynau cynhenid wrth i Lywodraeth Cymru sefydlu a rhedeg cwmni cyflenwi ynni. Roedd llawer o bobl a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn teimlo bod gan y llywodraeth lais niwtral yr ymddiriedir ynddo y gellid ei gollu pe bai'n cyfranogi yn y farchnad. At ei gilydd, teimlid y byddai'r risgiau pe bai Llywodraeth Cymru yn creu cwmni cyflenwi ynni yn uwch o gryn dipyn na'r buddion posibl. Cafodd [adroddiad annibynnol](#) ei gyhoeddi ar y digwyddiadau ym mis Awst.

Cafodd [Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog](#) ei gyhoeddi ym mis Awst, a oedd yn amlinellu'r ffaith nad ydym yn credu y gwnaed achos cryf dros sefydlu cwmni cyflenwi ymbarél yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym wedi ymgymryd â gwerthuso p'un a oes rôl bosibl ar gyfer cwmnïau ynni dielw sy'n annog rhagor o gydberchnogaeth ar brosiectau ynni adnewyddadwy trwy'r cais am dystiolaeth hwn.

Awgrymwyd ei bod yn bosibl y byddai mecanwaith buddsoddi Cymru gyfan yn ddefnyddiol ar gyfer codi cyllid o fewn Cymru a helpu i ariannu prosiectau o dan berchnogaeth leol, efallai ar sail ddielw. Mae'n bosibl y byddai mecanwaith o'r fath yn galluogi unigolion i fuddsoddi mewn cronfa ganolog a chodi cyllid cyn yr angen am fuddsoddiad. Gallai hynny leihau'r angen am gyllid adeiladu, neu'n lledaenu risg y prosiect ar draws portffolio, gan leihau'r risg i fuddsoddwyr unigol. Prin yw'r dystiolaeth y bydd hyn yn cynyddu'r buddion a gedwir yn yr ardal leol, yn effeithio ar ddarpariaeth gyfredol y farchnad, yn annog buddsoddiadau ychwanegol, neu'n galluogi i bortffolios mwy o brosiectau gael eu datblygu.

Mae'n bosibl y bydd rolau eraill wrth gyflawni'r targedau perchnogaeth mai ffurfio cwmni ynni dielw fyddai'r ffordd orau o'u cyflawni.

Felly, rydym yn ceisio tystiolaeth bellach mewn perthynas â'r cydsyniad o greu cwmni ynni dielw ar gyfer Cymru cyn penderfynu a ddylid ystyried y rhain ymhellach.

Cwestiwn 15: Rhowch dystiolaeth i gefnogi neu i herio rôl ar gyfer cwmni ynni 'dielw' ar gyfer Cymru i helpu i gyflawni targedau ar gyfer perchnogaeth leol.

Cwestiwn 16: Rhowch dystiolaeth o'r angen am gyfrwng i gynyddu argaeledd cyfalaf a leolir o fewn Cymru i'w fuddsoddi mewn prosiectau ynni.

[I fynd yn ôl i ymatebion Rhan 7](#)

Adran 8: Y camau nesaf

Bydd y dystiolaeth rydym yn ei derbyn o ganlyniad i'r cais am dystiolaeth hwn yn llywio'r camau rydym yn eu cymryd. Rydym yn gobeithio y bydd yn cadarnhau ein barn y bydd cynyddu'r ynni sy'n cael ei gynhyrchu o dan berchnogaeth leol yn cyfrannu at wneud Cymru fwy ffyniannus, yn ogystal ag ailgysylltu pobl â ffynonellau'r ynni rydym yn ei ddefnyddio gartref ac yn y gwaith. Mae'r ddealltwriaeth a'r cysylltedd hwn yn hanfodol i gyflawni dyfodol carbon isel.

Mae'n bosibl y byddwn am adolygu'r targedau ar gyfer perchnogaeth o ganlyniad i'r dystiolaeth a dderbynnir. Byddwn yn bendant yn defnyddio'r wybodaeth i barhau i esblygu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i ategu'r targedau. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o arweiniad, naill ai gan gyrff llywodraethol neu gyrff sector.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r dystiolaeth a dderbynnir, ac yn dilyn y cyhoeddiad hwn â diweddariad ar unrhyw gamau pellach mae angen eu cymryd.

**Ffurflen Ymateb
i'r Ymgynghoriad
Eich enw:**

**Sefydliad (lle bo'n
berthnasol):**

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

A ydych yn:

- | | |
|----------------------------|--------------------------|
| Unigolyn | <input type="checkbox"/> |
| Grŵp cymunedol | <input type="checkbox"/> |
| Menter gymdeithasol | <input type="checkbox"/> |
| Datblygwr | <input type="checkbox"/> |
| Sector cyhoeddus | <input type="checkbox"/> |
| Trydydd sector | <input type="checkbox"/> |

Rhowch rywfaint o wybodaeth am eich diddordeb yn y maes hwn.

Adran 1: Targedau

Cwestiwn 1: Rhowch dystiolaeth o blaid neu yn erbyn ehangu'r targed o 1 GW i gynnwys prosiectau trydan a gwres.

Cwestiwn 2: Rhowch dystiolaeth ynghylch y lefel o berchnogaeth y dylem ei hystyried ei bod yn rhesymol i gyflawni'r gofyniad.

Cwestiwn 3: Rhowch dystiolaeth i gefnogi neu i herio ehangu'r disgwyl mewn perthynas â chydberchnogaeth i gynnwys prosiectau trydan a gwres newydd eraill

Adran 2: Diffiniadau

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â'r diffiniad uchod o berchnogaeth leol?

<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

Rhowch dystiolaeth i gefnogi neu i ddiwygio'r diffiniad o berchnogaeth leol:

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'r diffiniad o gydberchnogaeth uchod?

- | | | | | |
|--------------------------|--------------------------|---------------------------------------|--------------------------|--------------------------|
| <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno
nac yn
anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n
gryf |

Rhowch dystiolaeth i gefnogi neu i ddiwygio'r diffiniad o gydberchnogaeth:

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno â'r diffiniad o berchnogaeth gymunedol uchod?

- | | | | | |
|--------------------------|--------------------------|---------------------------------------|--------------------------|--------------------------|
| <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno
nac yn
anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n
gryf |

Rhowch dystiolaeth i gefnogi neu i ddiwygio'r diffiniad o berchnogaeth gymunedol:

Adran 3: Tystiolaeth o fuddion perchnogaeth

Cwestiwn 7: Rhowch dystiolaeth o fuddion sydd eisoes yn cael eu cyflawni ar gyfer Cymru o brosiectau ynni adnewyddadwy.

Cwestiwn 8: Rhowch dystiolaeth o werth cymharol y gwahanol fuddion a amlinellir yn yr adran uchod. Fel rhan o'r asesiad hwn, byddwn yn croesawu dystiolaeth ynghylch pa flaenoriaethau y dylid cael eu gweithredu i sicrhau buddion uwch ar gyfer Cymru.

Adran 4: Heriau prosiectau o dan gydberchnogaeth

Cwestiwn 9: Rhowch dystiolaeth o heriau penodol mewn perthynas â phrosiectau sydd o dan gydberchnogaeth. Fel rhan o'r aseciad hwn, byddem yn croesawu dystiolaeth i ddangos a yw cydberchnogaeth ei hun yn rhwystr i gynnal prosiectau ynni adnewyddadwy.

Cwestiwn 10: Rhowch dystiolaeth o achos lle mae her neu rwystr i brosiect o dan gydberchnogaeth wedi derbyn sylw'n llwyddiannus.

Adran 5: Modelau perchnogaeth

Cwestiwn 11: Rhowch dystiolaeth o ddatblygiadau sy'n defnyddio modelau o berchnogaeth nad ydynt wedi'u cynnwys uchod.

Cwestiwn 12: Rhowch dystiolaeth i ddangos y modelau mwyaf defnyddiol ar gyfer cyflawni cydberchnogaeth a budd lleol.

Adran 6: Cyllid

Cwestiwn 13: Rhowch dystiolaeth o'r mathau a'r ffynonellau cyllid a ddefnyddir i ddatblygu prosiectau ynni yng Nghymru. Byddai dystiolaeth i gefnogi neu i herio parhau â chynigion cyllid Llywodraeth Cymru o gymorth.

Cwestiwn 14: Rhowch dystiolaeth o effaith modelau cydberchnogaeth ar gost neu fynediad at gyllid.

Adran 7: Rôl mecanweithiau buddsoddi a chwmni ynni

Cwestiwn 15: Rhowch dystiolaeth i gefnogi neu i herio rôl ar gyfer cwmni ynni dielw ar gyfer Cymru i helpu i gyflawni targedau ar gyfer perchnogaeth leol.

Cwestiwn 16: Rhowch dystiolaeth o'r angen am gyfrwng i gynyddu argaeledd cyfalaf a leolir o fewn Cymru i'w fuddsoddi mewn prosiectau ynni.

Cwestiwn 17: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: